English Cymraeg

# Cydnabod a chofnodi cynnydd a chyflawniad (RARPA)

## Canllawiau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Natspec
Llais addysg bellach arbenigol



Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

# Llywio'r ddogfen hon

Dogfen pdf ryngweithiol yw hon. Felly drwy glicio ar eiriau a delweddau penodol, byddwch chi'n gallu mynd at wahanol dudalennau yn y ddogfen neu i dudalennau gwe a fydd yn agor yn eich porwr rhyngrwyd.



45 Canllawiau RARPA

**Cam pedwar: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr** parhad

**O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol**

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae tiwtoriaid yn dadansoddi deilliannau eu hasesiadau o ddysgwyr i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio gwersi yn y dyfodol a'r camau nesaf o ran dysgu'r dysgwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r uwch reolwyr a'r staff yn olrhain a chadw cofnodion ar gynnydd pob dysgwr ac yn adrodd ar y rhain yn glir i fodloni anghenion dysgwyr, rhieni a gofalwyr ac awdurdodau lleoli. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain, yn cynnwys defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (MA 3.2).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau a gwybodaeth sy'n briodol i'w cymwysterau neu nodau dysgu cytûn, gan gynnwys ystyried i ba raddau y maent yn datblygu medrau cyflogadwyedd trosglwyddadwy i fodloni anghenion yr economi leol neu ar gyfer astudio ymhellach ar lefel uwch. Dylai arolygwyr werthuso'r adborth geiriol ac ysgrifenedig gan aseswyr hefyd i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn deall sut i asesu eu perfformiad eu hunain (MA3.2).

**Dolenni defnyddiol:**

- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol

Mae Estyn wedi datblygu:

- Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu

Dolenni delwedd
Cliciwch ar y delweddau i'w gweld ar-lein.

Dolenni testun
Mae testun sydd wedi'i danlinellu yn ddolen i dudalen arall yn y ddogfen hon neu i dudalen we.

# Cynnwys


Cyflwyniad

- Datblygu a sicrhau ansawdd prosesau RARPA ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 4
- Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn? 5
- Addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu cymhleth yng Nghymru 6

Cam un – Nodau'r rhaglen ddysgu 10

- Offeryn hunanarchwilio 19

Cam dau – Asesiad cychwynnol 21

- Offeryn hunanarchwilio 30

Cam tri – Gosod amcanion 32

- Offeryn hunanarchwilio 40

Cam pedwar – Adolygiad ffurfiannol o ddysgu 42

- Offeryn hunanarchwilio 51

Cam pump – Asesiad crynodol o gyflawniad 53

- Offeryn hunanarchwilio 62

Helpu i sicrhau ansawdd 64

Diolchiadau a manylion cyswllt 65




# Datblygu a sicrhau ansawdd prosesau RARPA ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Croeso i'r canllawiau hyn ar gyfer Cymru ar ddefnyddio prosesau RARPA mewn darpariaeth addysg bellach gyda dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae RARPA yn broses gydnabyddedig ar gyfer mesur cynnydd y dysgwr fesul cam a dangos deilliannau. Caiff ei defnyddio gan amlaf mewn perthynas â dysgu heb ei achredu ac, oherwydd hynny, mae'n werthfawr iawn i bobl ifanc sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu a all fod yn dilyn rhaglenni wedi'u personoli sydd heb eu cysylltu â chymwysterau. Mae RARPA yn golygu Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad. Pan gaiff ei ddarparu'n dda a'i ansawdd wedi'i sicrhau, mae RARPA yn darparu strwythur lle gall dysgwyr gyflawni deilliannau personol a pharatoi yn y ffordd orau ar gyfer eu bywyd fel oedolion ar ôl gadael coleg. Mae RARPA yn galluogi dysgwyr sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu i gydnabod, deall a dathlu eu cynnydd gan sicrhau eu bod yn cyflawni rolau ystyrlon ar eu siwrneiau addysg bellach. Mae'r elfennau sicrhau ansawdd yn RARPA yn darparu data a thystiolaeth uniongyrchol ar gyfer prosesau hunanwerthuso'r colegau. Drwy ddeall y cysylltiadau rhwng RARPA a'r meysydd yn arolygon Estyn, bydd colegau yn ei chael yn haws ystyried pa mor effeithiol ydyn nhw wrth ddiwallu anghenion dysgwyr a bydd hyn yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd yn barhaus.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r defnydd o RARPA ar gyfer dysgwyr ag ADY sydd wedi cofrestru ar gyrsiau fel rhaglenni sgiliau byw'n annibynnol mewn colegau addysg bellach prif ffrwd neu ar raglenni astudio mewn colegau arbenigol[1] a sefydlwyd yn unswydd i ddarparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu cymhleth. Gellir addasu prosesau RARPA i gydweddu â systemau data presennol sefydliadau i sicrhau bod lefel y craffu ar ansawdd darpariaeth sydd heb ei hachredu yn cyfateb i hynny ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u hachredu gan gyrff allanol. Fel arfer, bydd dysgwyr sydd ag ADY cymhleth mewn colegau addysg bellach a cholegau arbenigol yng Nghymru yn dilyn rhaglenni wedi'u personoli sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau. Yn aml, ni fydd rhaglenni o'r fath yn cynnwys unrhyw gyrsiau achrededig. Weithiau, fodd bynnag, bydd colegau'n dewis defnyddio rhywfaint o ddysgu achrededig i helpu'r dysgwr i gyflawni ei ddeilliannau arfaethedig cyffredinol. E.e. os gwelwyd bod angen i ddysgwr ddatblygu ei allu i ofalu amdano'i hun, gellid ei gyfarwyddo i gymryd unedau achrededig Agored Cymru fel 'coginio pryd syml' yn rhan o'r nod cyffredinol o gynyddu ei sgiliau byw'n annibynnol.

Yn 2020 roedd Natspec, ar ran y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant (ETF), wedi llunio canllawiau ar RARPA ar gyfer colegau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND) mewn addysg bellach yn Lloegr, yn cynnwys rhaglenni byw'n annibynnol a dysgu galwedigaethol. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer Lloegr yn cysylltu RARPA â Chod Ymarfer SEND Llywodraeth y DU a Fframwaith Arolygu Addysg Ofsted yn Lloegr.

Er mwyn helpu i drawsnewid y system ADY yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Natspec i lunio fersiwn o'r canllawiau ar gyfer Cymru i gydweddu RARPA â'r Cod ADY ac arweiniad Estyn i arolygwyr colegau addysg bellach a cholegau arbenigol yng Nghymru.

## Dolenni defnyddiol:

- Gellir gweld y canllawiau ar RARPA a gyhoeddwyd yn 2020 ar Borth Rhagoriaeth SEND y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant

[1] Yn y Cod ADY, mae colegau addysg bellach prif ffrwd yn cael eu galw'n Sefydliadau Addysg Bellach a cholegau addysg bellach arbenigol yn cael eu galw'n Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol. Mae Estyn yn eu galw'n golegau addysg bellach ac yn golegau arbenigol annibynnol. Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio termau sydd yn ein barn ni yn fwyaf hawdd eu deall gan ddysgwyr, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, felly mae colegau addysg bellach prif ffrwd yn cael eu galw'n 'golegau addysg bellach' a cholegau addysg bellach annibynnol yn cael eu galw'n 'golegau arbenigol'.

# Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn?

**Bydd y canllawiau hyn yn werthfawr i golegau yng Nghymru sydd eisoes wedi sefydlu proses RARPA ac i'r rheini sy'n anghyfarwydd â RARPA. Maen nhw'n egluro beth yw natur ymarfer effeithiol ar bob un o'r camau RARPA ac yn awgrymu mesurau dibynadwy i sicrhau ansawdd i'w defnyddio ar bob cam.**

Byddant yn ddefnyddiol i ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n gyfrifol am y dysgwyr hynny, yn cynnwys:

- arweinwyr a rheolwyr uwch sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau ansawdd mewn colegau addysg bellach a cholegau arbenigol
- swyddogion awdurdod lleol sy'n gyfrifol am Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) dysgwyr ôl-16
- arweinwyr cwricwlwm, staff addysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu
- aelodau o dimau amlddisgyblaeth y colegau, fel therapyddion
- timau cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd
- swyddogion pontio
- staff sy'n rheoli'r broses adolygu blynyddol statudol ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY.

## Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys:

- disgrifiad o'r ffordd y bydd pob cam RARPA yn gweithio pan gaiff ei reoli'n dda, yn cynnwys astudiaethau achos a dolenni i enghreifftiau mewn colegau[2]
- esboniad o'r ffordd y mae pob cam RARPA yn cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr
- agweddau allweddol ar y Cod ADY a beth all colegau ei wneud wrth symud drwy'r camau RARPA i gydymffurfio â'r Cod ADY a helpu awdurdodau lleol i gwrdd â'u rhwymedigaethau
- cwestiynau y dylai colegau eu gofyn iddyn nhw eu hunain ar bob cam RARPA wrth ddefnyddio'r broses gyda dysgwyr sydd â CDU
- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau sicrhau ansawdd ar bob cam
- offeryn hunanarchwilio ar gyfer pob cam RARPA i helpu colegau i weld beth sy'n gweithio'n dda a chofnodi camau sydd angen eu cymryd.

### Offer Hunanarchwilio

I gyrraedd yr Offeryn Hunanarchwilio ar gyfer pob Cam RARPA cliciwch isod: **Cam 1** Offeryn Hunanarchwilio | **Cam 2** Offeryn Hunanarchwilio | **Cam 3** Offeryn Hunanarchwilio | **Cam 4** Offeryn Hunanarchwilio | **Cam 5** Offeryn Hunanarchwilio

Gallwch lawrlwytho'r canllawiau fel un ffeil PDF. Hefyd gallwch lawrlwytho'r offer archwilio ar gyfer pob cam fesul un.

[2] Daw'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o golegau yng Nghymru ond mae enghreifftiau yn Lloegr wedi'u cynnwys lle bo'n briodol.

# Addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu cymhleth yng Nghymru

Ar gyfer yr holl bobl ifanc, pa un a oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol neu beidio, mae colegau addysg bellach yn darparu amgylchedd ôl-ysgol ar gyfer oedolion i roi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu dyheadau a pharatoi hyd eithaf eu gallu ar gyfer eu bywyd fel oedolion ar ôl gadael coleg. Ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY cymhleth, nid ennill cymwysterau ffurfiol yw prif bwrpas addysg bellach ond, yn hytrach, datblygu sgiliau byw penodol. Mae rhaglenni astudio unigoledig yn darparu'r dysgu sydd ei angen i'w helpu i fyw bywydau sy'n rhoi boddhad gan ddibynnu'n llai ar bobl eraill. Mae prosesau RARPA yn darparu fframwaith gyda sicrwydd ansawdd ar gyfer cynlluniau wedi'u teilwra'n unigol ac i gofnodi cynnydd a chyflawniad dysgwyr. Mae prosesau RARPA yn fodd i sicrhau ansawdd rhaglenni unigoledig o'r fath sy'n para am gyfnod penodol ac yn seiliedig ar dargedau a chyrchfannau er mwyn cynyddu canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr. Mae RARPA hefyd yn helpu colegau i asesu cynnydd a chyflawniad ar draws cwricwla a chohortau.

Ar ôl gadael ysgolion arbennig yn 19 oed, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru sydd ag ADY cymhleth yn mynd yn eu blaen i dderbyn addysg bellach a hyfforddiant yn eu coleg addysg bellach rhanbarthol lle byddant yn cofrestru ar un o bedwar llwybr dysgu mewn rhaglenni sgiliau byw'n annibynnol (SBA). Mae pob un o'r rhaglenni wedi'i seilio ar graidd sy'n cynnwys pedair colofn dysgu, sef iechyd a lles, cyflogadwyedd, byw'n annibynnol a chynhwysiant cymdeithasol. Mae disgwyl hefyd i golegau addysg bellach gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol ym mhob un o'r pedair colofn. Yn achos lleiafrif bach o bobl ifanc, nid hon fydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arnynt i ddatblygu eu sgiliau. Yn hytrach, oherwydd cymhlethdod yr heriau maent yn eu hwynebu, y DDdY briodol iddyn nhw fydd coleg arbenigol. Er enghraifft, gallai'r rhain fod yn ddysgwyr sydd ag angen goruchwyliaeth gyson er mwyn eu diogelwch eu hunain, nad yw ar gael bob amser mewn coleg addysg bellach. Os ydynt yn profi anawsterau prosesu synhwyraidd, mae'n bosibl y bydd yr amgylchedd mewn coleg prif ffrwd yn eu gorlethu, ac efallai y bydd angen integreiddio dulliau therapiwtig ac addysgol er mwyn iddynt sicrhau eu deilliannau arfaethedig mewn addysg bellach. Er enghraifft, efallai y bydd angen arbenigedd therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol neu arbenigedd seicolegol ac ymddygiadol i helpu'r dysgwr i gael at y cwricwlwm sydd ei angen arno. Mae rhaglenni astudio mewn colegau arbenigol yn bersonoledig iawn ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau penodol y gwelwyd bod angen i ddysgwyr eu datblygu. Beth bynnag yw eu rhaglen ddysgu a lle bynnag mae'n digwydd, mae RARPA yn sicrhau bod colegau'n gallu dangos bod y rhaglen ddysgu wedi galluogi'r dysgwr i wneud y cynnydd angenrheidiol a disgwyliedig er mwyn symud ymlaen i'w gyrchfan arfaethedig.

# Addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu cymhleth yng Nghymru parhad

Cod ADY Cymru 2021 a ddyroddwyd dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yw'r canllaw ar gyfer rhanddeiliaid sydd â chyfrifoldebau statudol. Mae hefyd yn ddogfen gyfeirio bwysig i holl ddarparwyr darpariaeth ddysgu ychwanegol. Lle mae colegau'n deall dyletswyddau yn y Cod a sut maen nhw'n cysylltu â'r broses RARPA, byddant yn gallu darparu tystiolaeth bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu a bod cynnydd yn cael ei wneud.

Bydd dysgwyr ag ADY sy'n mynd ymlaen i addysg bellach yn cael cynllun datblygu unigol sy'n amlinellu eu hanghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Mae'r Cod yn disgwyl y bydd mwyafrif y bobl ifanc yn cael diwallu eu hangen rhesymol am addysg mewn colegau addysg bellach ac, yn y rhan fwyaf o achosion, y coleg addysg bellach fydd yn cymryd cyfrifoldeb am adolygu a chynnal eu CDU.

Mae awdurdodau lleol yn uniongyrchol gyfrifol am gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth neu ddifrifol. Mae hyn yn cynnwys y rheini na ellir diwallu eu hanghenion rhesymol am addysg a hyfforddiant mewn coleg addysg bellach ac, yn yr amgylchiadau hynny, mae'r cyfrifoldebau dros adolygu a chynnal y CDUau yn perthyn i'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau lleoliadau mewn colegau arbenigol.

### Mae'r Cod yn datgan:

Er mwyn gwireddu eu potensial, mae'n bosibl y bydd angen DDdY ar bobl ifanc ag ADY er mwyn gallu manteisio ar addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran, neu mae'n bosibl y bydd angen addysg neu hyfforddiant arnynt a gynllunnir yn benodol ar gyfer pobl ag ADY. Yn y ddau achos, mae disgwyl y bydd sefydliadau addysg bellach prif ffrwd, ac mewn rhai achosion, ysgolion a gynhelir, fel arfer yn gallu diwallu anghenion addysg neu hyfforddiant y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY (17.24).

Fodd bynnag, yn achlysurol, efallai na fydd darpariaeth ar gael mewn sefydliadau addysg bellach nac ysgolion a gynhelir i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (gan gynnwys ei anghenion rhesymol am DDdY i ymgymryd â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw) neu efallai na fydd person ifanc yn gallu cael gafael ar y ddarpariaeth sydd ar gael ac a allai fod yn addas i ddiwallu ei anghenion fel arall. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd angen i awdurdod lleol, drwy gynnal CDU, sicrhau lle mewn sefydliad penodol ar gyfer y person ifanc neu'r ddarpariaeth bwyd a llety fel y gellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc (17.25).

### Dolenni defnyddiol:

- Manylebau rhaglen Sgiliau Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru
- Rhestr Termau ADY
- Y Cod ADY

# Addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu cymhleth yng Nghymru parhad

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae pob cam RARPA yn cysylltu â'r Cod ADY fel y bydd colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn gallu gweld sut bydd prosesau RARPA yn gallu eu helpu i gwrdd â'u cyfrifoldebau statudol. Yn yr un modd, mae colegau arbenigol yn gallu defnyddio'r canllawiau hyn ar bob un o'r camau RARPA i helpu cyrff statudol i gyflawni eu rhwymedigaethau i ddysgwyr ag ADY cymhleth.


Mae'r canllawiau hefyd yn cydweddu pob un o'r camau RARPA â fframwaith arolygu Estyn. Yn ei gyhoeddiadau ar gyfer colegau addysg bellach ac arbenigol, 'Beth rydym yn ei arolygu', mae Estyn yn amlinellu ei fframwaith arolygu ac yn egluro beth mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso colegau ar sail ei bum maes arolygu. Rhoddir sylw helaeth i gynnydd y dysgwr a sut mae colegau'n cwrdd ag anghenion dysgwyr ag ADY ym mhob un o'r pum maes arolygu (MA), sef dysgu (MA1); lles ac agweddau at ddysgu (MA2); addysgu a phrofiadau dysgu (MA3); gofal, cymorth ac arweiniad (MA4) ac arweinyddiaeth a rheolaeth (MA5).

Mae cadw anghenion a llais y dysgwyr ar ganol y broses cynllunio yn brif egwyddorion yn RARPA ac yn y diwygiadau ADY ac, ym mhob rhan o'r canllawiau hyn, nodir ymarfer ac offer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar bob cam. Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn helpu colegau i gael gwybod beth sy'n bwysig i'r dysgwr penodol, beth sy'n cyfrif mwyaf iddo a pha strategaethau cymorth sy'n gweithio orau iddo. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys dolenni i offer meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion y gall colegau eu defnyddio i gynnal sgyrsiau â dysgwyr, eu rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol mewn sawl disgyblaeth drwy'r pum cam RARPA er mwyn casglu gwybodaeth a chadw dyheadau a nodau'r dysgwr ar ganol y broses gynllunio.

## Dolenni defnyddiol:

- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol



# Camau RARPA

**Mae pum cam yn y broses RARPA. Maen nhw'n dilyn proses sy'n gyfarwydd mewn rhaglenni dysgu o bob math a gellir eu cymhwyso at nodau dysgu tymor byr a thymor hir:**

| | |
|---|---|
| Cam un | **Nodau'r rhaglen ddysgu** |
| Cam dau | **Asesiad cychwynnol** |
| Cam tri | **Gosod amcanion** |
| Cam pedwar | **Adolygiad ffurfiannol o ddysgu** |
| Cam pump | **Asesiad crynodol o gyflawniad** |

Ychwanegwyd chweched cam 'y camau nesaf' i'r broses RARPA gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn 2017. Roedd y cam hwn yn ymwneud â chynorthwyo dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu camau nesaf ymlaen at ddysgu pellach neu waith. Fodd bynnag, nid oedd canllawiau diwygiedig Natspec yn 2020 wedi cynnwys y cam hwn gan ei fod yn awgrymu bod modd gadael meddwl am ddilyniant tan ddiwedd y cwrs. Er bod cynllunio ar gyfer pontio ac asesiadau crynodol o gyflawniadau yn cyrraedd eu penllanw ar gam 5, mae cynllunio rhaglenni heb eu hachredu i ddysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu yn galw am roi ystyriaeth cyn eu cofrestru ac ar bob cam RARPA i gyrchfannau dysgwyr ar ôl gadael coleg.

Yn lle'r chweched cam, nodir camau gweithredu ym mhob un o'r pum cam i atgoffa defnyddwyr o'r pwysigrwydd o sicrhau'n gyson fod dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at gyrraedd eu cyrchfannau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys camau sicrhau ansawdd i asesu a oes cynllunio yn digwydd ar gyfer cyrraedd cyrchfannau ar ôl gadael coleg. Rhwng y cyngor a'r arweiniad a roddir i'r unigolyn cyn ei dderbyn a'r asesiad terfynol, dylai colegau ganolbwyntio ar bwrpas y rhaglen ddysgu i'r unigolyn a sut bydd yn ei alluogi i symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn ei fywyd.



# Cam un

## Nodau'r rhaglen ddysgu

Dylai nodau rhaglenni dysgu fod ar gael yn rhwydd, yn hawdd eu deall ac wedi'u seilio ar anghenion a dyheadau'r dysgwr. Mae hyn yn sicrhau y bydd modd cynnig i ddysgwyr y rhaglenni sydd eu hangen arnynt ac yn helpu colegau i reoli disgwyliadau rhanddeiliaid.

# Cam un: Beth mae'n ei olygu?

### Mae cam un yn ymwneud â sicrhau bod dysgwyr yn cael cynnig rhaglenni sydd:

- yn gallu cwrdd â'u hanghenion penodol, dyheadau tymor hir a deilliannau arfaethedig
- yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu dewisiadau a chamau nesaf mewn addysg
- yn darparu llwybrau clir at gyrchfannau arfaethedig
- yn eu helpu i bontio i raglen ddysgu newydd
- yn cymryd i ystyriaeth y cyd-destun lleol a chenedlaethol lle mae'r dysgu'n digwydd.

### Pan fydd nodau'r rhaglen ddysgu wedi'u rheoli'n dda:

- mae prosesau cynghori a darparu gwybodaeth yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau pwyllog ar sail gwybodaeth
- mae barn a dyheadau'r dysgwyr yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu darpariaeth sy'n addas
- mae nodau'r rhaglen yn berthnasol i nodau a dyheadau tymor hir y dysgwyr
- mae'r rhaglen ddysgu arfaethedig yn cynnig heriau addas i bob dysgwr
- mae'r deilliannau dysgu yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau personol, cymdeithasol a chyflogadwyedd a fydd yn eu harwain i'w cyrchfan arfaethedig
- ceir pontio sydd wedi'i gynllunio i'r rhaglen ddysgu
- mae staff yn glir am eu rolau a chyfrifoldebau ac yn deall nodau'r rhaglen ddysgu
- mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â galw lleol a chenedlaethol ac yn ymateb i anghenion y dysgwyr.



# Cam un: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr

Mae sicrhau bod dysgwyr yn cael cynnig rhaglenni dysgu sy'n cwrdd â'u hanghenion am addysg a hyfforddiant ac yn cael eu cofrestru ar y rhaglenni dysgu hynny yn sylfaen hanfodol ar gyfer cyflawniadau dysgwyr ac mae'r cynnydd a wnaiff dysgwyr yn ystod eu haddysg a hyfforddiant yn ystyriaeth ganolog yn null arolygu Estyn. Mae Estyn yn gofyn i'w Arolygwyr asesu ansawdd y cyngor ac arweiniad diduedd a ddarperir gan golegau ac asiantaethau allanol eraill i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau ar eu rhaglen. Mae hefyd yn gofyn i Arolygwyr ystyried sut mae cynnwys cwricwla yn cydweddu â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a sut mae hyn yn helpu dysgwyr.



### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer addysg bellach a 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd arweiniad a chyngor diduedd a roddir i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen gan y coleg ac asiantaethau allanol eraill (MA4.1).

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ac yn cydweithredu â darparwyr a phartneriaid addysg eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol (MA5.1).

# **Cam un: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr** parhad

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau addysg bellach

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer rhoi cymorth personol ac arbenigol i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau asiantaethau arbenigol sydd ar gael (MA4.1).

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw ystod y rhaglenni dysgu a gynigir yn darparu llwybrau dilyniant addas i ddysgwyr i addysg bellach ac uwch, yn ogystal â chyflogaeth a hyfforddiant. I ddysgwyr ag anghenion cymhleth, dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae rhaglenni dysgu yn paratoi dysgwyr ar gyfer eu cyrchfannau dewisol (MA3.1).

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn bwrpasol ac yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol (MA5.1).

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr ystyried dull strategol y coleg ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a'r graddau y mae'n helpu dysgwyr i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus (MA3.1).

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r cwricwlwm yn paratoi dysgwyr ar gyfer eu cyrchfannau dewisol (MA3.1).


Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ac yn cydweithredu â darparwyr a phartneriaid addysg eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol (MA5.1).

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol na fydd hi bob amser yn bosibl nac yn briodol cymharu canlyniadau dysgwyr mewn colegau annibynnol arbenigol gyda darparwyr eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig ffurfio barn ar y graddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu potensial (MA1.1).

**Dolenni defnyddiol:**

- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol



# Cam un: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| Un o egwyddorion allweddol y system ADY yw'r angen am gydweithredu rhwng pawb sy'n ymwneud ag adnabod anghenion ac â chynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY (21.1).<br><br>Mae cyfrifoldebau'r CADY yn cynnwys trafod ag arbenigwyr gyrfaoedd i sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael cyngor priodol ar yrfaoedd (8.21). | Sicrhau bod yr holl randdeiliaid (e.e. dysgwyr, rhieni, awdurdodau lleol, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol [CADYau] mewn ysgolion, Cynghorwyr Gyrfaoedd a Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg [SACDAau] yn deall eich arlwy cwricwlwm a'r math o ddeilliannau ystyrlon y mae dysgwyr ag ADY cymhleth yn gallu eu cyflawni. |
| Mewn rhai achosion, os oes gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, neu os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion o'r fath, gallai awdurdod lleol nodi mwy nag un rhaglen astudio addas arfaethedig. Yn yr achos hwn, wrth ddewis rhyngddynt, gall yr awdurdod lleol ystyried a yw'r dewisiadau amgen yn gydnaws â'r angen i osgoi gwariant cyhoeddus afresymol (17.80). | Helpu awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau drwy ddarparu gwybodaeth amserol a thryloyw am nodau rhaglenni astudio, unrhyw opsiynau ynddynt a chostiadau cysylltiedig. |
| Disgwylir y byddai'r gwaith cynllunio ar gyfer proses bontio hysbys yn digwydd yr un pryd ag adolygu CDU fel arfer. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod cynlluniau pontio yn dod yn broses reolaidd y mae plant a phobl ifanc yn dod yn gyfarwydd â hi ac yn teimlo'n gyfforddus yn trafod sut y gallai pontio effeithio arnynt (27.20).<br><br>Os cynlluniwyd unrhyw wybodaeth neu drefniadau i helpu plentyn neu berson ifanc i bontio i'r cyfnod nesaf, dylai'r corff sy'n gyfrifol am lunio'r CDU eu nodi yn yr adran hon. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol: y cam(au) pontio a ddisgwylir; unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu'r trefniadau pontio; y camau y cytunwyd y byddai'r holl weithwyr proffesiynol a/neu'r asiantaethau sy'n cefnogi'r cam(au) pontio yn eu cymryd; yr amcanion a'r deilliannau y disgwylir i'r pontio eu cefnogi (23.88). | Helpu i gynllunio pontio yn amserol drwy fod yn barod i gychwyn prosesau'n gynnar. Darparu eglurhad ynghylch prosesau asesu cyn derbyn ac arlwy DDdY fel y bydd rhanddeiliaid, yn cynnwys dysgwyr, yn deall eich darpariaeth.<br><br>Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn amserol i randdeiliaid sy'n gyfrifol am CDUau ynghylch sut y gellir helpu dysgwyr i bontio i'r coleg yn llyfn, yn cynnwys dyddiadau a gwybodaeth ymarferol arall fel enwau cysylltwyr.<br><br>Darparu gwybodaeth hawdd ei deall ynghylch sut i gwrdd ag amcanion a deilliannau. |

# **Cam un: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud** parhad

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| Efallai y bydd dulliau tebyg i brosesau pontio eraill yn ofynnol wrth ddarparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc ag ADY sy'n symud i addysg bellach. Gall cyfleoedd i ymgyfarwyddo â lleoliad newydd, cwrdd â staff addysgu neu gymryd rhan mewn sesiynau blasu helpu i baratoi pobl ifanc wrth iddynt bontio i sefydliad addysg bellach (27.45). | Datblygu a chynnal cysylltiadau cydweithredol ag ysgolion, swyddogion awdurdodau lleol, rhieni a gofalwyr. Cefnogi pontio fesul cam ac ymweliadau ar gyfer dysgwyr a staff a darparu manylion am ffyrdd i gefnogi pontio, e.e. diwrnodau blasu, ymweliadau rhithwir etc. |
| Mae parhau i adolygu DDdY a threfniadau eraill yn rheolaidd yn rhan allweddol o'r gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol yn lleol. Bydd yn galluogi awdurdodau lleol i asesu anghenion cyfredol a rhai tebygol y dyfodol a sicrhau bod digon o ddarpariaeth a gwasanaethau ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny (7.8). | Darparu data i'r awdurdod lleol i ddangos nifer y dysgwyr sydd yn y gwahanol raglenni dysgu. Bydd hyn o gymorth ar gyfer cynllunio strategol. Defnyddio data a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol am anghenion a ragwelir yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod rhaglenni dysgu yn cwrdd ag anghenion ac ar gyfer datblygu nodau rhaglenni. |

# Cam un: cwestiynau y dylai colegau eu gofyn iddyn nhw eu hunain am Gynlluniau Datblygu Unigol

Ar bob cam yn y broses RARPA, mae camau y gall colegau eu cymryd i sicrhau bod rhaglenni dysgu yn cydweddu â CDUau.

| Cwestiynau i'w gofyn | Os mai 'na' neu 'ddim yn siŵr' yw'r ateb |
|---|---|
| A yw'r cwrs yn ceisio cynnwys cyfleoedd i wneud cynnydd ar gyflawni'r pedair colofn (rhaglenni sgiliau byw'n annibynnol) a/neu anghenion personol eraill a nodwyd sydd gan y dysgwr? | Adolygu'ch arlwy cwricwlwm i sicrhau bod nodau'r cyrsiau yn darparu ar gyfer yr hyblygrwydd sydd ei angen i gyflawni rhaglenni dysgu sy'n canolbwyntio ar unigolion, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu bywydau fel oedolion ar ôl gadael coleg. |
| A yw'r adolygiad blynyddol diwethaf o'r deilliannau arfaethedig yn CDU y dysgwr yn cyfrannu i'r broses derbyn? | Gwirio'r deilliannau a gytunwyd yn yr adolygiad blynyddol diwethaf. Fel arfer, bydd hyn wedi digwydd drwy adolygiad pontio gyda chamau gweithredu penodol i helpu'r person ifanc i symud i leoliad newydd. Bydd rhai colegau'n anfon cynrychiolydd i adolygiadau blynyddol ym mlwyddyn olaf y person ifanc yn yr ysgol er mwyn cynorthwyo wrth drafod opsiynau ôl-16. |
| A yw deilliannau'r CDU yn adlewyrchiad cywir o beth sy'n ystyrlon i'r dysgwr ar yr oed hwn ac ar y cam addysg hwn? | Gall colegau addysg bellach adolygu CDUau yn unol â'u prosesau eu hunain. Dylai colegau addysg bellach arbenigol gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol i gael trafodaeth am newidiadau sydd eu hangen cyn yr adolygiad blynyddol nesaf. |
| A fydd nodau'r rhaglen ddysgu yn galluogi'r dysgwr i gyflawni deilliannau yn ei CDU? A fydd y rhain yn cynnig her ddigonol ac yn osgoi ailadrodd? | Trefnu i gael gwybodaeth a chyngor a fydd yn paru'r dysgwr â rhaglen ddysgu sy'n cwrdd â'i anghenion. Deilliannau'r CDU yw'r buddion y disgwylir i'r unigolyn eu cael o ganlyniad i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant. Os na fydd y dysgwr yn gallu gwneud cynnydd ar gyflawni'r rhain yn ei raglen ddysgu neu os byddai'n ailadrodd dysgu, yna ni fydd y rhaglen yn un briodol i'r dysgwr. |
| A gyflawnwyd y pontio a gynlluniwyd i'r rhaglen ddysgu? A gasglwyd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer derbyn y person ifanc i'r rhaglen ddysgu, yn cynnwys holi'r person ifanc am y cymorth sydd ei angen arno a sut byddai'n hoffi ei gael? | Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr eraill i gynnig sesiynau blasu, ymweliadau a digwyddiadau gyrfaoedd i helpu i sicrhau pontio llyfn. Dewch o hyd i'r wybodaeth berthnasol a mwyaf diweddar am y person ifanc yn ystod y broses derbyn. Mae cael gwybod gan y person ifanc ei hun beth mae arno ei angen a'i eisiau yn gam hanfodol i sicrhau pontio llyfn. |
| A oes pecyn cymorth ehangach ar gyfer y dysgwr y bydd angen ei addasu pan fydd yn dechrau ar ei raglen ddysgu? | Datblygu dull amlasiantaeth o weithredu gyda thimau iechyd a gofal cymdeithasol i gynnal y broses pontio er budd pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr. Bydd nifer o bobl ifanc hefyd yn symud i wasanaethau oedolion ar yr adeg hon ac mae hyn yn galw am weithio ar draws sectorau. |

# Cam un: ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

## Enghreifftiau mewn colegau...

Fel arfer, bydd y CADY neu swyddogion pontio yn ein coleg yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu pontio ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion arbennig y disgwylir iddynt gael eu derbyn i'n coleg. Pan fyddant yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol, bydd dysgwyr yn cael eu gwahodd i ddod draw i'r coleg am ychydig o oriau bob wythnos. Yn ystod yr ymweliadau cyswllt ysgolion hyn, mae dysgwyr yn cael cymorth gan staff cyfarwydd o'r ysgol i ymgynefino â'r amgylchedd dysgu newydd, y cwricwlwm a rheolweithiau. Bydd y dysgwyr yno ochr yn ochr â dysgwyr o ysgolion eraill y disgwylir y byddant yn pontio i'r coleg, felly byddant yn cwrdd â chyfoedion ac yn gallu dechrau gwneud ffrindiau newydd. Mae'r broses hon yn ein helpu i ddeall a ydyn ni'n cynnig y ddarpariaeth briodol i'r dysgwyr. Mae hefyd yn llesol i'r dysgwyr a'r staff ac yn ein galluogi ni fel coleg i gynllunio'n fwy effeithiol i gwrdd ag anghenion dysgwyr (coleg addysg bellach).


Rydym yn casglu gwybodaeth cyn asesu a gafwyd drwy wneud ceisiadau am wybodaeth i ysgolion ac i rieni a hefyd gwybodaeth a gafwyd drwy gynnal diwrnodau asesu ac ymweliadau gan ddysgwyr. Rydym yn cysoni'r wybodaeth hon â deilliannau dysgwyr a amlinellwyd yn eu Cynllun Dysgu a Sgiliau (CDS), neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) neu eu Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (CAIG) a dyheadau tymor hir y dysgwr a'i gyrchfan debygol ar ôl gadael coleg. Bydd tîm amlddisgyblaeth yn trafod a fyddwn yn gallu cwrdd ag anghenion y dysgwr. Byddwn wedyn yn gweithio'n ôl o nodau cyrchfan y dysgwr ac yn cytuno ar nodau dysgu personol (NDPau) pwrpasol ac uchelgeisiol ar gyfer rhaglen astudio'r dysgwr (gweler canllawiau i staff ar droi cyrchfannau yn dargedau). Mae'r rhain yn cael eu rhannu wedyn yn nodau blynyddol a thargedau tymor. Wedyn bydd targedau tymor yn cael eu rhannu'n gamau nesaf ymarferol i'r dysgwr (coleg arbenigol).


Mae'r templed cyrchfan dysgwr yn ddogfen ddefnyddiol sy'n amlinellu beth mae angen i'r dysgwr ei gael drwy dderbyn addysg bellach ac yn sicrhau bod modd pennu rhaglen ddysgu sy'n addas (coleg arbenigol).

**Dolenni defnyddiol:**

Dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru


- Canllaw ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg
- Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion






Dogfennau a gyhoeddwyd gan National Development Team for inclusion (NDTI)

- NDTI enghraifft o Map Cysylltiadau
- NDTI Offeryn ar gyfer paru cymorth



# Cam un: sicrhau ansawdd

Bydd tystiolaeth o'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu i adolygiadau hunanwerthuso a rhaglenni gwella ansawdd y colegau. Mae'r rhestr hon, a'r rheini ar gyfer camau eraill, yn un sy'n cynnig awgrymiadau yn hytrach nag argymhellion ac mae'n bosibl y bydd colegau eisoes wedi sefydlu dulliau eraill neu ychwanegol i wirio ansawdd ar bob cam RARPA.

## Enghreifftiau o weithgarwch sicrhau ansawdd

- Gwirio lefelau'r boddhad ar brosesau pontio a chofrestru. Defnyddiwch ffurflenni adborth i gael gwybod sut y gellir gwneud prosesau cofrestru yn fwy effeithlon a hwylus i ddefnyddwyr.
- Dadansoddi data am geisiadau, cofrestru a phresenoldeb i ganfod a yw dysgwyr wedi'u cyfeirio at/eu lleoli yn y rhaglenni cywir.
- Arsylwi ar y rhyngweithio i ddarparu gwybodaeth a chyngor cyn derbyn dysgwyr i wirio bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gyrchfannau a ddewiswyd gan ddysgwyr.
- Gwirio bod y wybodaeth am raglenni yn ddealladwy, yn cynnwys y wybodaeth am eich darpariaeth a gaiff ei darparu drwy drefniadau awdurdod lleol.
- Cymryd sampl o ddysgwr ar raglen benodol a chymharu eu deilliannau tymor hir â nodau'r rhaglen er mwyn cadarnhau bod dysgwyr yn cael eu lleoli yn y rhaglen briodol.
- Darparu diweddariadau, hyfforddiant a chanllawiau ysgrifenedig i staff, fel llawlyfr RARPA, sy'n dweud pwy sy'n gwneud beth, pam, pa bryd a sut.
- Defnyddio offeryn hunanwerthuso staff i asesu pa mor hyderus yw staff ynghylch cyflawni'r pum cam RARPA.



# Cam un: offeryn hunanwerthuso

Defnyddiwch yr offeryn hunanwerthuso i asesu beth rydych chi eisoes yn ei wneud yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach.

■ Dim tystiolaeth yn galw am sylw ■ Angen datblygu ■ Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni

| Cam un: nodau'r rhaglen ddysgu | | | | Beth yw'r dystiolaeth? (nodwch gamau gwella yn y blychau ar y gwaelod) |
|---|---|---|---|---|
| A oes tystiolaeth bod nod y rhaglen ddysgu yn cwrdd ag angen? | | | | |
| A yw nod y rhaglen ddysgu yn cynnwys cyfleoedd dysgu sy'n ymwneud â'r pedair colofn dysgu: sgiliau byw'n annibynnol, iechyd a lles, cymuned a chyflogadwyedd (rhaglenni sgiliau byw'n annibynnol mewn colegau addysg bellach)? | | | | |
| A yw nod y rhaglen yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol a chyfathrebu, sgiliau iaith Gymraeg, rhifedd a llythrennedd digidol (colegau addysg bellach)? | | | | |
| A yw nod y rhaglen ddysgu yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflawni deilliannau personol mewn CDUau sy'n ymestynnol, yn uchelgeisiol ac yn ymarferol? | | | | |
| A fydd y rhaglen ddysgu yn galluogi dysgwyr i gyrraedd eu cyrchfan arfaethedig? | | | | |
| A yw staff wedi cael yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddeall nodau'r rhaglen ac i helpu darpar ddysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth? | | | | |
| A oes cyngor a gwybodaeth ar gael cyn cofrestru sy'n helpu dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am y rhaglen sydd orau iddyn nhw? | | | | |
| A yw'r broses derbyn wedi canfod holl anghenion y dysgwr am gymorth ac a oes modd eu diwallu drwy'r rhaglen ddysgu? | | | | |
| A yw darpar ddysgwyr yn gallu cael gwybod am y rhaglen drwy ddigwyddiadau, ymweliadau, sesiynau blasu, cyfarfodydd adolygu pontio a mynediad at wybodaeth a chyngor sy'n ddealladwy ac yn berthnasol iddyn nhw? | | | | |
| A yw llais y darpar dysgwyr wedi'i glywed a'u barn wedi'i hystyried wrth gynnig lle ar y rhaglen ddysgu? | | | | |
| A yw'r broses sicrhau ansawdd wedi'i llunio ar sail adborth o brosesau cyn cofrestru a derbyn? | | | | |

# Cam un: offeryn hunanwerthuso parhad

Camau gwella ansawdd

| Beth sydd angen ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Pryd gaiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cam dau

## Asesiad cychwynnol

Mae angen cael cyd-ddealltwriaeth o sgiliau a gwybodaeth linell sylfaen y dysgwyr er mwyn gallu targedu dulliau addysgu a dysgu yn briodol a mesur cynnydd. Mae rhaglenni addysg bellach i ddysgwyr ag ADY ar gyrsiau sgiliau byw'n annibynnol mewn colegau addysg bellach neu golegau arbenigol yn rhai ar gyfer oedolion ac wedi'u teilwra i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n llwyddiannus fel oedolion. Mae colegau'n cynnig amgylcheddau dysgu sy'n wahanol i'r rheini y mae dysgwyr wedi bod yn gyfarwydd â nhw yn yr ysgol. Fel arfer, maen nhw hefyd yn cynnig pynciau gwahanol mewn gwahanol ffyrdd gyda lefelau cymorth gwahanol ar gyfer dysgu.

# Cam dau: Beth mae'n ei olygu?

**Mae cam dau yn ymwneud â chynnig proses asesu cychwynnol sydd:**

- fel arfer yn digwydd dros gyfnod o bedair i chwe wythnos ac yn canfod cryfderau'r dysgwr a meysydd i'w datblygu ac a fydd yn helpu i benderfynu'r dull o ddarparu'r cwricwlwm
- yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, a gasglwyd o wahanol ffynonellau, a fydd o gymorth i bennu mannau cychwyn pob dysgwr wrth ddechrau ar ei raglen ddysgu
- yn galluogi'r dysgwr i ddangos ei sgiliau a gwybodaeth bresennol mewn meysydd sy'n ystyrlon iddo ac yn ymwneud â'i ddyheadau a deilliannau tymor hir
- yn disgrifio anghenion a strategaethau cymorth ychwanegol i gynyddu potensial y dysgwr
- yn darparu cyfle i feithrin cysylltiadau gweithio cefnogol a chadarnhaol rhwng staff a dysgwyr.

**Pan fydd yr asesiad cychwynnol wedi'i reoli'n dda:**

- ceir amrywiaeth o ddulliau gweithredu a chyfleoedd dysgu i gael adborth gan y dysgwr am ei ddyheadau, dewisiadau a hoff arddull dysgu
- mae gwybodaeth a gesglir yn ystod yr asesiad cychwynnol yn arwain at gynllunio rhaglen ddysgu sy'n ymestynnol ac uchelgeisiol yn ôl yr hyn sy'n addas, yn cadarnhau dysgu blaenorol ac yn osgoi ailadrodd
- mae canlyniadau'r asesiad cychwynnol yn cael eu rhannu â'r dysgwr, staff perthnasol, yn cynnwys y tîm amlddisgyblaeth ehangach a rhieni a gofalwyr, lle bo'n briodol
- mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i asesu sut mae dysgwyr yn trosglwyddo eu sgiliau presennol i'w lleoliad newydd, gan ystyried sut byddai'r pontio i leoliad newydd wedi gallu effeithio ar y dysgwr
- rhoddir sylw i'r hyn y mae dysgwyr yn gallu ei wneud yn annibynnol a, lle gallant ddatblygu hyn i gael mwy o annibyniaeth, mae anghenion cymorth ychwanegol yn cael eu nodi a strategaethau'n cael eu datblygu gyda'r dysgwr i gwrdd â'r anghenion hyn
- nodir yn glir beth mae'r dysgwr yn ei wybod ac yn gallu ei wneud nawr a beth mae angen iddo ei wybod a'i wneud yn y dyfodol, i gyflawni ei ddeilliannau.

# Cam dau: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr

Drwy ddeall sut mae RARPA yn cysylltu â'r hyn y mae Estyn yn ei arolygu, gall colegau ystyried pa mor effeithiol ydyn nhw wrth gwrdd ag anghenion dysgwyr. Drwy ddefnyddio prosesau RARPA yn effeithiol, gall colegau ddangos eu bod yn sicrhau nad yw dysgwyr ag ADY yn wynebu anfantais o gymharu â dysgwyr eraill a'u bod yn gallu cael darpariaeth o ansawdd da sy'n uchelgeisiol ac ymestynnol. Mae prosesau RARPA effeithiol yn arwain at fesurau tryloyw o gynnydd y dysgwr ac yn darparu tystiolaeth i ddangos ymrwymiad i wella ansawdd yn barhaus. Bydd arolygwyr yn asesu'r graddau y mae colegau'n deall anghenion a galluoedd dysgwyr a pha mor gyflym yw eu cynnydd at gyflawni nodau dysgu.

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer addysg bellach a 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn trefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o ran eu hanghenion a'u galluoedd unigol (MA4.1).



# Cam dau: sut mae’n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr parhad

## O ‘Beth rydym yn ei arolygu’ ar gyfer colegau addysg bellach

Yn achos dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dylai gwerthusiadau am gyflawniad ystyried gwybodaeth am eu hanghenion a’u galluoedd unigol. Dylai arolygwyr ystyried cyfradd cynnydd y dysgwyr hyn o ran eu targedau, nodau dysgu cytûn a’u mannau cychwyn unigol. Lle bo’n berthnasol, dylai arolygwyr werthuso’r graddau y mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn datblygu:

- eu medrau echddygol manwl a bras, eu symudedd a’u medrau byw yn annibynnol
- eu medrau cymdeithasol, yn cynnwys eu gallu i uniaethu â dysgwyr eraill, staff ac ymwelwyr â’r coleg
- y medrau sydd eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol (MA1.1).

## O ‘Beth rydym yn ei arolygu’ ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr ystyried a yw dysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o ystyried eu mannau cychwyn, a’u hoedran a’u gallu (MA1.1)


Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu’r medrau gofynnol i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu’n effeithiol trwy gydol eu bywydau (MA1.3)

Pan fyddant ar gael, dylai arolygwyr ystyried canlyniadau asesiadau perthnasol eraill, fel canlyniadau gallu darllen dysgwyr, wrth ffurfio barn am fedrau llythrennedd dysgwyr (MA1.3).

### Dolenni defnyddiol:

- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol



# Cam dau: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| Mewn achosion pan fo'r broses o benderfynu a oes gan y person ADY ar y gweill, neu pan fo CDU wrthi'n cael ei lunio (neu, mewn perthynas â pherson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, os yw asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei ystyried neu ei gynnal neu gynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei lunio), dylid bod wedi cynnal asesiad cychwynnol o anghenion y person ifanc (16.32). | Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion ac awdurdodau lleol, lle bo'n briodol, i gasglu gwybodaeth er mwyn cynllunio asesiad cychwynnol personol sy'n nodi'n gywir fannau cychwyn y dysgwr. Bydd defnydd effeithiol o wybodaeth a gafwyd o leoliadau blaenorol ac yn ystod y broses pontio yn eu helpu i wneud hyn. |
| Disgwylir i bob lleoliad addysg gyflwyno addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill, â'r nod o sicrhau gwell cynnydd, lle bo'n briodol, i bob dysgwr (20.14). | Defnyddio dull seiliedig ar wybodaeth i bennu cymorth sy'n cwrdd ag anghenion y dysgwr, a'i ddarparu. Gall hyn gynnwys cymorth arbenigol allanol a gomisiynir gan y coleg. |
| Dylai pob ymgeisydd a myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach gael cyfle wrth ymgeisio, wrth gofrestru ac yn ystod y cwrs, i godi unrhyw bryderon ynghylch eu hanghenion dysgu (20.7). | Darparu cyfleoedd i ddysgwyr hunanddatgan anghenion dysgu yn ystod y broses cofrestru ac asesu cychwynnol, a chreu diwylliant lle mae dysgwyr yn teimlo'n hyderus wrth wneud hynny.<br><br>Darparu gwybodaeth hawdd ei deall i ddysgwyr am y cymorth dysgu sydd ar gael. Datblygu cynlluniau cymorth a/neu ofal gyda'r dysgwr fel y bydd yn deall sut bydd y cymorth yn ei alluogi i wneud cynnydd o'i fan cychwyn. |
| Wrth nodi deilliannau dymunol, mae'n hollbwysig ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddo a'r hyn y mae eisiau ei gyflawni (17:34). | Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu cyfleu eu barn a'u dymuniadau, a darparu adnoddau pwrpasol sy'n hwylus i ddysgwyr, yn cynnwys arwyddion a symbolau os bydd angen er mwyn sicrhau bod asesiadau cychwynnol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf. |

# **Cam dau: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud** parhad

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
| --- | --- |
| Dylai'r sefydliad addysg bellach wneud y canlynol:<br>(a) gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r holl staff sy'n ymwneud ag addysgu neu gefnogi'r plentyn am yr anghenion hynny;<br>(b) cynnwys y CADY wrth gynghori staff addysgu ar y dulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r plentyn er mwyn diwallu'r anghenion ymddangosiadol ac ynglŷn â lle i gael rhagor o wybodaeth a chyngor os oes angen;<br>(c) gwneud unrhyw addasiadau priodol i amgylchedd yr ysgol er mwyn ei gwneud yn haws i'r plentyn gael ei addysg;<br>(d) darparu cymorth ychwanegol neu wahanol priodol ar gyfer y plentyn o'r adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr allanol;<br>(e) monitro effaith y cymorth a ddarperir ar gyfer y plentyn a'i addasu os daw i'r amlwg y byddai hyn yn briodol (12.29). | Cynnal archwiliad o sgiliau staff i ganfod unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a sgiliau sy'n ymwneud ag asesu anghenion. Dynodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn meithrin arbenigedd mewn meysydd penodol a sicrhau bod staff perthnasol yn cael briffiadau a diweddariadau rheolaidd am yr arferion gorau wrth asesu a diwallu anghenion.<br>Sicrhau bod asesiadau cychwynnol yn nodi ffactorau amgylcheddol a all amharu ar fynediad at y cwricwlwm.<br>Sicrhau bod asesiadau cychwynnol yn gallu pennu unrhyw angen i gael mewnbwn gan arbenigwyr allanol.<br>Rhannu gwybodaeth llinell sylfaen o asesiadau fel man cychwyn i fesur cynnydd a chyflawniad. |

# Cam dau: cwestiynau y dylai colegau eu gofyn iddyn nhw eu hunain am Gynlluniau Datblygu Unigol

| Cwestiynau i'w gofyn | Os mai 'na' neu 'ddim yn siŵr' yw'r ateb |
|---|---|
| A yw'r broses asesu cychwynnol wedi nodi'n gywir y wybodaeth a'r sgiliau presennol sydd gan y dysgwr mewn perthynas â'i ddyheadau a deilliannau arfaethedig yn ei CDU, yn cynnwys ei ddewis o lwybr dysgu neu raglen astudio? | Ystyried y deilliannau arfaethedig yn y CDU gyda'r dysgwr a'i rieni a gofalwyr, os yw'n briodol. Gwirio bod y deilliannau'n parhau'n berthnasol. Os nad ydynt, gweithredwch eich prosesau adolygu (colegau addysg bellach) a/neu cysylltwch â'r awdurdod lleol i ofyn am adolygiad brys, fel y bo'n briodol.<br>Adolygu'r gweithgareddau dysgu a gafwyd yn ystod y broses asesu cychwynnol. A oedd ystod y gweithgareddau'n ddigon eang i fesur mannau cychwyn y dysgwr ar draws meysydd y cwricwlwm a rhaglenni? Os nad oedd, penderfynwch sut y gellid newid hyn. |
| A yw'r broses asesu cychwynnol wedi cadarnhau'r angen am y cymorth a'r DDdY sydd wedi'u disgrifio yn y CDU neu a yw wedi nodi anghenion ychwanegol neu wahanol? | Byddwch yn glir fod gennych ddealltwriaeth llawn o anghenion presennol y dysgwr o ran iechyd, gofal a dysgu. Os yw'r asesiad cychwynnol wedi dangos bod angen cymorth ychwanegol, bydd angen i chi gysylltu â'r awdurdod lleol ar y mater hwn, os nad yw eisoes wedi'i nodi yn y CDU. |
| A yw'r wybodaeth a gasglwyd yn eich asesiad cychwynnol yn gyson â'r proffil yn y CDU (Amdanaf i)? | Trosglwyddo unrhyw ddiweddariadau perthnasol i bobl sy'n gyfrifol am gynnal CDUau. |

# Cam dau: ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

### Enghreifftiau mewn colegau …

Yn ystod pedair neu bum wythnos gyntaf y dysgwr yn y coleg, bydd yr holl staff sy'n gweithio gydag ef yn cyfrannu i ddogfen Asesiad Llinell Sylfaen sy'n gofyn cwestiynau am sgiliau a galluoedd y dysgwr mewn perthynas â hunanofal ac annibyniaeth; ei anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol; lefelau cyfathrebu a rhyngweithio; anghenion o ran datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol ynghyd â'i alluoedd gwybyddol a dysgu. Defnyddir y data cynhwysfawr hyn wedyn fel llinell sylfaen i fesur cynnydd ar ei raglen astudio unigol ac i drefnu'r rhaglen astudio unigol i gwrdd â'i nodau ar gyfer cyrchfan.


Mae un coleg addysg bellach yn defnyddio taenlen Excel ar gyfer asesiad cychwynnol y dysgwr sydd â dalennau ar wahân ar gyfer pob un o bedair colofn y cwricwlwm sgiliau byw'n annibynnol ynghyd â sgiliau llythrennedd, cyfathrebu a digidol er mwyn cofnodi galluoedd llinell sylfaen y dysgwr a fydd yn sail ar gyfer gosod targedau a mesur cynnydd.

Mae coleg addysg bellach arall yn defnyddio Tabl i wneud asesiad llinell sylfaen o'r dysgwr gan ddefnyddio sgôr 1-10 i bennu targedau tymor byr, canolig a hir ar gyfer cynlluniau datblygu unigol. Ar ôl cael mewnbwn gan ddysgwyr a phobl sy'n eu hadnabod yn dda, mae un coleg annibynnol wedi creu proffiliau un dudalen ar gyfer staff a all fod yn anghyfarwydd â dysgwyr neu sydd newydd ddechrau darparu cymorth iddynt.

**Dolenni defnyddiol:**


Dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru


- Canllaw ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg




Dogfennau a gyhoeddwyd gan National Development Team for inclusion (NDTI)

- Pasbort cyfathrebu
- Offeryn Diwrnod Da a Diwrnod Gwael



# Cam dau: sicrhau ansawdd

## Enghreifftiau o weithgarwch sicrhau ansawdd

- Samplu gwaith dysgwyr yn ystod yr asesiad cychwynnol a chymharu hyn â gwybodaeth am lefel flaenorol eu sgiliau a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses cyn cofrestru.
- Gwirio am gysondeb yn y broses asesu cychwynnol ar draws pynciau neu themâu yn y cwricwlwm. Mabwysiadu proses glir i benderfynu a yw dysgu achrededig a chymwysterau yn briodol.
- Nodi lle mae'r broses asesu cychwynnol yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau personol a chyfathrebu, sgiliau iaith Gymraeg, rhifedd a llythrennedd ac, os yw'n briodol, eu hymddygiad.
- Arsylwi a chasglu adborth gan ddysgwyr am eu profiad o asesu cychwynnol a sut mae'n cwrdd â'u disgwyliadau wrth ddechrau yn y coleg.
- Adolygu deilliannau tymor hir a dewis gyrchfannau y dysgwr ar sail canlyniadau'r broses gychwynnol i ddarparu tystiolaeth bod y broses yn asesu'r hyn sy'n berthnasol i ddyfodol y dysgwr.
- Samplu cofnodion am gymorth dysgu ychwanegol i wirio bod cydberthynas rhwng y cymorth a gynigir i ddysgwyr a'r anghenion a nodwyd yn ystod yr asesiad cychwynnol.
- Asesu'r cynlluniau cwricwlwm personol ar gyfer sampl o ddysgwyr er mwyn dangos cyfatebiaeth rhwng y cynnwys ac uchelgeisiau a dewisiadau a fynegwyd gan ddysgwyr yn ystod yr asesiad cychwynnol.
- Cymharu data llinell sylfaen o'r asesiad cychwynnol â nodau'r rhaglen ddysgu i wirio bod dysgwyr yn cael cymorth i wneud cynnydd o'r mannau cychwyn a nodwyd.



# Cam dau: offeryn hunanwerthuso

**Defnyddiwch yr offeryn hunanwerthuso i asesu beth rydych chi eisoes yn ei wneud yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach.**

■ Dim tystiolaeth yn galw am sylw ■ Angen datblygu ■ Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni

| Cam dau: asesiad cychwynnol | (Dim tystiolaeth yn galw am sylw) | (Angen datblygu) | (Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni) | Beth yw'r dystiolaeth? (nodwch gamau gwella yn y blychau ar y gwaelod) |
|---|---|---|---|---|
| A yw gwybodaeth ddigonol a pherthnasol yn cael ei chasglu wrth bontio o leoliadau blaenorol ac oddi wrth eraill sy'n adnabod y dysgwr yn dda, i fod yn sail i'r asesiad cychwynnol? | | | | |
| A yw'r broses asesu cychwynnol wedi annog a helpu dysgwyr i gyfleu beth sy'n bwysig iddynt am eu rhaglen ddysgu a sut maent yn hoffi cael eu haddysgu a'u cynorthwyo? | | | | |
| A yw'r asesiad cychwynnol yn ddifyr ac yn ddiddorol i ddysgwyr? A yw'n canolbwyntio ar ganfod cryfderau a rhinweddau cadarnhaol yn ogystal â heriau? Lle bo'n briodol, a yw dysgwyr yn deall ei bwrpas? | | | | |
| A yw staff yn nodi'n gywir a yw mannau cychwyn y dysgwyr yn berthnasol i'w rhaglen ddysgu? | | | | |
| A oes dull cyson o asesu cychwynnol ar draws y ddarpariaeth? A oes cyd-ddealltwriaeth ymysg y staff sy'n gysylltiedig o'r hyn sy'n cael ei asesu, ar gyfer pwy ac i ba ddiben? | | | | |
| A yw'r asesu cychwynnol yn arwain at ddatblygu targedau ymestynnol ac uchelgeisiol sydd â chysylltiad uniongyrchol â deilliannau tymor hir y dysgwr? A yw hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol, cymdeithasol a byw'n annibynnol? | | | | |
| A yw strategaethau cymorth yn cael eu nodi a chynlluniau'n cael eu rhannu â staff perthnasol, y dysgwr a rhieni a gofalwyr, os yw'n briodol? | | | | |
| A yw'r broses asesu cychwynnol yn rhoi'r gallu i ganfod unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu a fyddai'n rhoi dysgwyr ag ADY dan anfantais fel arall? | | | | |
| A yw staff yn defnyddio prosesau effeithiol i rannu data o asesiadau ac a ydyn nhw'n defnyddio'r data hyn i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ystyriol o fannau cychwyn gwahanol y dysgwyr? | | | | |
| A oes cyfleoedd i ddysgwyr a'u rhieni (os yw'n briodol) gael cyngor a gwybodaeth os daw'n amlwg, yn ystod y broses asesu cychwynnol, nad yw rhaglen benodol yn gallu cwrdd â'u hanghenion? | | | | |
| A yw'r cylch sicrhau ansawdd yn cynnwys cam cymedroli asesiadau cychwynnol ac a yw hyn yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau i raglenni dysgu drwy'r amser? | | | | |

# Cam dau: offeryn hunanwerthuso parhad

Camau gwella ansawdd

| Beth sydd angen ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Pryd gaiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cam tri

## Gosod Amcanion

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd ag ADY cymhleth yn cael eu cofrestru ar raglenni dysgu sydd heb eu hachredu. Gall rhai ohonynt geisio ennill rhai elfennau dysgu achrededig yn eu rhaglen ond bydd cynnwys y cwricwlwm a'u hamserlenni wythnosol yn y coleg wedi cael eu seilio ar nodau neu amcanion dysgu a ddynodwyd. Bydd y rhain wedi'u seilio ar CDU y dysgwr, ei lwybr dysgu (os yw'r dysgwr mewn coleg addysg bellach) neu raglen astudio (os yw'r dysgwr mewn coleg arbenigol) ynghyd â data o'r asesiad cychwynnol a gasglwyd ar gam dau a gwybodaeth fwy cyffredinol a gasglwyd ar gam un.

# Cam tri: Beth mae'n ei olygu?

## Mae cam tri yn ymwneud â sicrhau dull o osod amcanion dysgu sydd:

- yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses pontio a'r asesiad cychwynnol i gynllunio rhaglenni dysgu personol
- yn pennu amcanion dysgu gyda'r dysgwr a fydd yn ei alluogi i wneud cynnydd ar gyflawni ei ddyheadau tymor hir a deilliannau ei CDU
- yn ymateb yn gyflym i newid neu'n addasu amcanion lle bo angen, i sicrhau eu bod yn parhau i gwrdd ag anghenion y dysgwr
- yn cynnwys cymorth ac ymyriadau o ansawdd da ar gyfer yr unigolyn.

## Pan fydd y dull gosod amcanion wedi'i reoli'n dda:

- mae llwybr clir rhwng pontio a'r asesiad cychwynnol a'r dull gosod amcanion sy'n helpu i gyflawni deilliannau tymor hir ystyrlon
- mae dysgwyr yn berchen ar eu hamcanion eu hunain ac yn gallu eu mynegi mewn ffyrdd priodol am eu bod wedi cymryd rhan wrth eu datblygu
- gofynnir i'r holl staff sy'n gweithio gyda dysgwyr i gymryd rhan a chyfrannu at osod amcanion, ac mae amser yn cael ei neilltuo ar gyfer hyn
- mae'r holl staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i helpu i gyflawni amcanion a sut i adnabod a chofnodi cynnydd
- ceir system gwybodaeth reoli lle gellir cofnodi ac olrhain amcanion
- mae'r amcanion yn benodol, mesuradwy, cyraeddadwy ac ymarferol ac o fewn terfynau amser y rhaglen ddysgu
- mae'n glir sut y gellir cyflawni amcanion ar draws y cwricwlwm
- mae staff yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus sy'n arwain at addysgu, dysgu a chymorth o ansawdd da.

# Cam tri: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr

Agweddau allweddol ar gefnogi cynnydd a chyflawniad y dysgwr yw sicrhau bod amcanion dysgwyr yn berthnasol i'w galluoedd ac anghenion eu hunain a'u cyrchfannau ar ôl gadael coleg. Dylai dysgwyr gael cymorth i gymryd rhan wrth gytuno ar amcanion dysgu a deall sut maen nhw'n ymwneud â'u dyheadau ar ôl gadael coleg. Dylai amcanion fod yn ymestynnol a chyraeddadwy fel y bo'n briodol.

Mae Arolygwyr Estyn yn cael eu cyfarwyddo i werthuso dyheadau'r coleg ar gyfer ei ddysgwyr a sut mae'n bwriadu cwrdd ag anghenion dynodedig y dysgwyr.

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer addysg bellach a 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan athrawon ac ymarferwyr eraill ddisgwyliadau uchel o bob dysgwyr. Dylent ystyried ansawdd cynllunio a pha mor dda y mae eu cynllunio'n bodloni anghenion y rhaglen ddysgu. Dylent ystyried y graddau y mae gan athrawon amcanion clir ar gyfer dysgu'r dysgwyr ac y maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u herio i gyflawni cystal ag y gallant (MA3.2).

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol (MA1.1 yn y canllawiau i golegau addysg bellach) (MIA3.1 yn y canllawiau i golegau arbenigol h.y. mewn perthynas â'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn helpu i ddatblygu sgiliau).



# **Cam tri: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr** parhad

Yn benodol, dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau cyflogadwyedd ac i ba raddau y mae dysgwyr yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, galluog ac annibynnol (MA2.2).

Dylai arolygwyr farnu diddordeb dysgwyr yn eu gwaith, eu gallu i gynnal eu canolbwyntio a pheidio â gadael i bethau dynnu eu sylw (MA 2.2).

Dylent werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn dyfalbarhau ac yn parhau'n benderfynol pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n ceisio atebion eraill pan fydd eu dull cyntaf o ddatrys problem yn aflwyddiannus (MA2.2).

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae profiadau dysgu ar draws y ddarpariaeth yn ysgogi ac yn herio dysgwyr fel eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl (MA3.1).


Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos hyder a gwydnwch yn eu bywydau, er enghraifft yn y ffordd y maent yn rhyngweithio â phobl newydd a gyda'u cyfoedion. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus, er enghraifft trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a goddefgarwch (MA2.1).

Dylai colegau arbenigol gyfeirio hefyd at adran 4.1 o lawlyfr arweiniad Estyn ar gyfer arolygwyr colegau annibynnol arbenigol lle nodir ystyriaethau penodol i arolygwyr mewn perthynas â gofal, cymorth ac arweiniad.

## Dolenni defnyddiol:

- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol



# Cam tri: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
| --- | --- |
| Dylai'r deilliannau a fwriedir ganolbwyntio ar alluogi plant a phobl ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, boed yn gyflogaeth neu'n addysg bellach neu uwch, byw'n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol. Felly, mae'n hanfodol ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc a'r hyn y mae am ei gyflawni (23.30). | Defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i gynnwys y dysgwr a'r rheini sy'n ei adnabod yn dda wrth osod amcanion dysgu sy'n ymwneud â deilliannau addas yn y CDU.<br><br>Mabwysiadu strategaethau i ysbrydoli a chymell dysgwyr i nodi deilliannau ymestynnol a cheisio eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys darparu esiamplau cadarnhaol o bobl anabl a phobl ag ADY sydd wedi llwyddo yn eu haddysg a chyflawni eu nodau bywyd.<br><br>Cyflogi staff sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol i alluogi dysgwyr i gyflawni deilliannau.<br><br>Nodi lle y gellid bod angen comisiynu cymorth allanol. |
| Hefyd, gall CDUau gynnwys deilliannau â ffocws ehangach, fel cydberthnasau cymdeithasol cadarnhaol a chryfder a sefydlogrwydd emosiynol. I rai plant a phobl ifanc, gall deilliant a fwriedir ymwneud â lleihau effaith unrhyw amhariad ar eu dysgu (23.30). | Sicrhau bod amcanion dysgu yn cynnwys amrywiaeth fawr o gyfleoedd, yn cynnwys cyfleoedd sy'n ymwneud â lles a fydd o gymorth i ddysgwyr yn eu bywydau ar ôl gadael coleg, i'w rheoli eu hunain a'u hamser mewn ffyrdd sy'n gwella eu bywydau (e.e. dilyn hobïau a diddordebau). |
| Dylid nodi'r holl ddeilliannau a fwriedir yn y CDU mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl mesur a ydynt wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ai peidio, a dylent fod yn ymarferol ac yn heriol. Dylid gwneud hyn drwy sicrhau bod y deilliannau'n rhai "CAMPUS" (Credadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) (23.31). | Rhoi gwiriadau ar waith i sicrhau bod amcanion dysgu a thargedau yn rhai CAMPUS, yn ymarferol ac ymestynnol a bod yr holl randdeiliaid, yn cynnwys dysgwyr, yn gallu cysylltu dysgu o ddydd i ddydd â nodau tymor canolig a hwy. |
| I nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r deilliant neu'r deilliannau a fwriedir, mae'n bosibl y byddai'n fuddiol pennu targedau neu gerrig milltir interim neu dymor byr, a monitro effaith y DDdY ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc (23.33). | Sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth gan staff ym mhob rhan o'r coleg o'r ffordd i osod a monitro targedau tymor byr a chanolig sy'n ymwneud â thargedau tymor hwy a deilliannau CDUau. Caniatáu amser yn llwythi gwaith staff i gymryd rhan mewn prosesau RARPA a myfyrio ar briodoldeb amcanion a thargedau'r dysgwyr. |

# Cam tri: cwestiynau y dylai colegau eu gofyn iddyn nhw eu hunain am Gynlluniau Datblygu Unigol

| Cwestiynau i'w gofyn | Os mai 'na' neu 'ddim yn siŵr' yw'r ateb |
|---|---|
| A oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion dysgu a osodwyd i'r dysgwr unigol a chyflawni deilliannau arfaethedig yn ei CDU? | Gwirio bod deilliannau'r CDU yn parhau'n berthnasol ac ystyrlon i'r dysgwr. Os ydynt yn parhau'n berthnasol, adolygwch y ffordd y cafodd yr amcanion dysgu eu datblygu a beth sydd angen ei newid i sicrhau y byddant o gymorth i gyflawni'r deilliannau tymor hir.<br><br>Os oes angen diwygio'r deilliannau, gweithredwch eich prosesau'ch hun i'w hadolygu (sefydliadau addysg bellach) a/neu cysylltwch â'r awdurdod lleol i ofyn am adolygiad brys, fel y bo'n briodol. |
| A yw'r amcanion dysgu yn y CDU yn rhai credadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol (CAMPUS) fel sy'n ofynnol? | Ysgrifennu amcanion dysgu gan ddefnyddio ymadroddion allweddol sy'n ategu'r dull CAMPUS: e.e.<br><br>Nawr rydw i'n gwybod neu rydw i'n gallu gwneud hyn...<br><br>Erbyn (yr amser) byddaf yn gwybod neu'n gallu gwneud hyn...<br><br>Y rheswm am hyn yw fy mod yn mynd i ymarfer gwneud/dysgu hyn... |
| A yw'r ymyriadau cymorth a nodwyd yn y CDU wedi cael eu rhoi ar waith? | Archwiliwch gynlluniau gofal a chymorth y dysgwr. Gwerthuswch y rhain ar sail adran 2A o'r CDU sy'n nodi anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr. Cysylltwch â darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol sydd hefyd yn gweithio gyda'r dysgwr i sicrhau. |

# Cam tri: ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

### Enghreifftiau mewn colegau…

Mae un coleg arbenigol yn defnyddio templed CDU i gofnodi cyrchfan y dysgwr ar ôl gadael coleg a'r cwricwlwm, targedau a nodau y mae'r coleg yn eu darparu i helpu'r dysgwr ar ei siwrnai

Mae un coleg addysg bellach yn defnyddio templed Cynllunydd Hanner Tymore i helpu Tiwtoriaid i gynllunio

Mae un coleg arbenigol yn defnyddio templed 'Fy nhargedau ar gyfer y sesiwn hon' i helpu'r dysgwr i ddeall beth mae'n ei wneud mewn sesiwn dysgu benodol


Mae un coleg arbenigol yn defnyddio symbolau a thestun ysgrifenedig i helpu dysgwyr i ddeall eu targedau dysgu unigol.

.

**Dolenni defnyddiol:**

Dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru


- Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion





Dogfennau a gyhoeddwyd gan National Development Team for inclusion (NDTI):

- Templed NDTI ar gyfer cynllunio wythnos berffaith
- Templed NDTI ar gyfer ynys beth sy'n bwysig
- Templed NDTI ar gyfer Pasbort Galwedigaethol



# Cam tri: sicrhau ansawdd

## Enghreifftiau o weithgarwch sicrhau ansawdd

- Dynodi tîm o staff priodol i gymedroli amcanion dysgwyr. Gallai gynnwys uwch-reolwr, arweinwyr cwricwlwm, athrawon ac arweinwyr cymorth. Pwrpas cymedroli ar y cam hwn yw gwirio bod amcanion dysgu wedi'u seilio ar ddull CAMPUS, eu bod yn uchelgeisiol ac yn gyraeddadwy o fewn y cwricwlwm, a bod cysylltiad rhyngddynt a deilliannau tymor hir y dysgwr.
- Yn ôl maint y rhaglen ddysgu, cymryd sampl o amcanion dysgu ar gyfer pob dysgwr yn y rhaglen gyfan a chroesgyfeirio'r rhain at ei ddeilliannau tymor hir. Fel arall, dewiswch ddysgwyr penodol a samplu eu holl amcanion dysgu.
- Darparu rhestr wirio i gymedrolwyr sy'n cynnwys gofyn sut, pa bryd a phwy fydd yn delio ag unrhyw anghysondeb wrth osod amcanion dysgu a nodi arferion da, y gellir ei rhannu rhwng y tîm staff. Gall cymedroli ddarparu tystiolaeth bod amcanion wedi'u cysylltu â deilliannau tymor hir a bod y cwricwlwm yn ddigon eang i alluogi'r dysgwr i wneud y cynnydd disgwyliedig.
- Mapio amcanion dysgu ar sail pynciau neu themâu yn y cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfleoedd dysgu priodol i wneud cynnydd.
- Archwilio cynlluniau gofal a chymorth y dysgwyr i sicrhau bod cymorth o'r math a'r lefel briodol ar gael i bob dysgwr sy'n berthnasol i'w amcanion dysgu.
- Cymharu sampl o amcanion y dysgwyr â chanfyddiadau o asesiadau cychwynnol i ganfod a yw'r nodau a osodwyd yn rhoi her addas i bob dysgwr.
- Defnyddio arsylwadau o wersi neu droeon dysgu i wirio a yw'r amcanion dysgu ar gael yn rhwydd, yn weladwy yn yr amgylchedd dysgu ac wedi'u deall gan staff sy'n darparu cymorth. Gofyn i ddysgwyr beth yw eu hamcanion dysgu a sut byddant yn gwneud cynnydd ar eu cyflawni.
- Archwilio'r broses gosod amcanion er mwyn nodi enghreifftiau lle mae dysgwyr wedi cymryd rhan (e.e. drwy ddefnyddio fideo, symbolau, dulliau cyfathrebu amgen a chynyddol a strategaethau fel rhyngweithio dwys).
- Mynd i adolygiadau cychwynnol o'r dysgwr a/neu samplu cofnodion o gyfarfodydd i asesu a yw'r amcanion yn cael eu rhannu â'r bobl briodol sy'n adnabod y dysgwr yn dda ac yn gallu rhoi adborth ar eu priodoldeb o ran helpu'r dysgwr i gyflawni ei ddeilliannau tymor hir.
- Adolygu data a gofnodwyd ar systemau gwybodaeth reoli i wirio bod staff yn cofnodi amcanion a gwirio bod hawl gan yr holl staff perthnasol i weld y wybodaeth hon.
- Holi staff i asesu lefel eu gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder wrth osod amcanion. Nodi unrhyw fylchau a darparu gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus sy'n briodol, e.e. cefnogaeth gan gymheiriaid i staff llai hyderus. Cynnwys hyn mewn trefniadau i oruchwylio a rheoli perfformiad staff os bydd angen.
- Cynnal archwiliad o sgiliau staff i asesu a oes lefelau priodol o arbenigedd gan staff i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflawni eu hamcanion. Nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau neu arbenigedd a'r ffordd i ddelio â hyn drwy weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus neu drwy gomisiynu cymorth allanol arbenigol.
- Adolygu'r dystiolaeth o wahanol weithgareddau sicrhau ansawdd i ffurfio barn ynghylch a yw'r broses gosod amcanion yn nodi'n gywir beth mae angen i'r dysgwr ei wneud a'i wybod, i nesáu at ei ddeilliannau tymor hir. Os nad yw, nodwch y newidiadau sydd eu hangen.

# Cam tri: offeryn hunanwerthuso

**Defnyddiwch yr offeryn hunanwerthuso i asesu beth rydych chi eisoes yn ei wneud yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach.**

■ Dim tystiolaeth yn galw am sylw ■ Angen datblygu ■ Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni

| Cam tri: gosod amcanion | Dim tystiolaeth yn galw am sylw | Angen datblygu | Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni | Beth yw'r dystiolaeth? (nodwch gamau gwella yn y blychau ar y gwaelod) |
|---|---|---|---|---|
| A oes cynllun cymedroli yn rhan o'r cylch sicrhau ansawdd sy'n gwirio'r broses o osod amcanion/targedau ar sail deilliannau tymor hir? A wneir newidiadau o ganlyniad i hyn i wella ansawdd a rhannu'r arferion gorau? | | | | |
| A yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn ffyrdd priodol wrth osod amcanion/targedau? E.e., mewn ffordd sy'n cymryd i ystyriaeth eu dewis ddulliau cyfathrebu a dysgu. | | | | |
| A oes system gwybodaeth reoli lle mae amcanion y dysgwr yn cael eu cadw, lle gellir adrodd arnynt a'u newid, a'r system hon yn un sydd ar gael i'w defnyddio gan yr holl staff? | | | | |
| A yw'r system gwybodaeth reoli yn galluogi staff i olrhain cynnydd a chyflawniad o'r mannau cychwyn a'u cysylltu'n ôl â deilliannau tymor hir? | | | | |
| A nodwyd cymorth ac ymyriadau i roi'r gallu i gyflawni amcanion ar gyfer yr holl ddysgwyr sydd ag ADY? A yw'r rhain wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn cael eu cyflawni at safon uchel? | | | | |
| A yw'r lefelau priodol o arbenigedd a sgiliau gan staff i ddarparu cwricwlwm lle gall dysgwyr wneud cynnydd ar gyflawni eu hamcanion? A oes cynllun datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff sydd ag angen cynyddu eu sgiliau a gwybodaeth? | | | | |
| A oes dilyniant rhesymegol o amcanion dros amser, sy'n dangos sut mae pob amcan yn adeiladu ar ben yr un blaenorol mewn trefn? | | | | |
| A yw amcanion y dysgwyr yn weladwy yn yr amgylchedd dysgu? A ydynt yn weladwy mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r dysgwr? E.e. defnyddio symbolau, ffotograffau, lluniau, gwrthrychau | | | | |
| A yw'r amcanion yn cynnwys yr holl feysydd a nodwyd ar gyfer y dysgwr e.e., y pedair colofn, sgiliau personol a chyfathrebu, sgiliau iaith Gymraeg, rhifedd a llythrennedd digidol (colegau addysg bellach)? | | | | |

# Cam tri: offeryn hunanwerthuso parhad

Camau gwella ansawdd

| Beth sydd angen ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Pryd gaiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cam pedwar

## Adolygiad ffurfiannol o ddysgu

Mae cam pedwar y broses RARPA yn ymwneud â chydnabod a chofnodi'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud ar gyflawni'r amcanion a osodwyd ar gam tri. Mae'r cam hwn yn darparu adborth i ddysgwyr, tiwtoriaid a rhanddeiliaid ehangach am y pellter y mae dysgwyr wedi'i deithio tuag at eu nodau cyrchfan.

# Cam pedwar: Beth mae'n ei olygu?

**Mae cam pedwar yn ymwneud ag asesu cynnydd y dysgwr drwy adolygiad ffurfiannol o ddysgu sydd:**

- yn adolygu ac yn cofnodi'r cynnydd a wneir yn ystod y rhaglen ddysgu
- yn defnyddio dulliau creadigol i gael adborth rheolaidd gan ddysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ac yn cydnabod cynnydd y dysgwr ar draws y cwricwlwm cyfan
- yn cynnwys adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion i drafod cynnydd a sicrhau bod anghenion am ddysgu, cymorth a gofal yn cael eu diwallu
- yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch camau nesaf y dysgwr ar sail dull cywir o fesur y cynnydd.



**Pan fydd yr adolygiad ffurfiannol o ddysgu wedi'i reoli'n dda:**

- ceir cofnod o gynnydd a diweddariad o amcanion dysgu sy'n dangos beth mae'r dysgwr yn ei wybod ac yn gallu ei wneud nawr, sy'n wahanol i'r hyn a oedd cynt
- mae cynnydd oddi allan i'r amcanion a osodwyd yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio wrth gynllunio
- mae'r dysgwr a'r rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan wrth asesu cynnydd a hynny mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw
- ceir adborth yn ymwneud â'r unigolyn
- mae dysgwyr yn gwybod beth maent wedi'i gyflawni a beth fydd y camau nesaf
- gall dysgwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch cyrchfannau ar sail asesiad o'u cynnydd
- mae system gwybodaeth reoli effeithiol sy'n coladu data asesu
- mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau wrth gynnal asesiadau a gwneir hyn mewn ffordd effeithlon, heb greu beichiau diangen i staff neu ddysgwyr
- mae tystiolaeth o gynnydd yn cael ei chymedroli i sicrhau cysondeb ac ar sail mesurau ansawdd
- defnyddir tystiolaeth o adroddiadau ac adolygiadau o gynnydd i wneud gwelliannau ar gyfer unigolion ac ar gyfer y rhaglen ddysgu gyfan.

# Cam pedwar: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr

Mae deall y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud ar gyflawni eu deilliannau arfaethedig yn rhan ganolog o'r broses RARPA ac o ddull arolygu Estyn, ac mae priodoldeb yr offer asesu a ddefnyddir i gael tystiolaeth o gynnydd yn fesur allweddol i sicrhau ansawdd ar gyfer colegau. Elfen ganolog yn yr ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer adolygu dysgu yw datblygu sgiliau myfyrio dysgwyr, yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â chymryd rhan wrth goladu a chynhyrchu tystiolaeth o'r cynnydd a gafwyd ar gyrraedd eu targedau a nodau neu o gyflawni'r rheini.

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer addysg bellach a 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth wrth werthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, er enghraifft cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd diweddar, cyfweliadau â staff, cynlluniau gweithredu gwelliannau ac adroddiadau ar weithredu'r rhain, hunanasesiad diweddar gan arweinwyr a rheolwyr, a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr (MA5.1).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau a gwybodaeth sy'n briodol i'w cymwysterau neu nodau dysgu cytûn, gan gynnwys ystyried i ba raddau y maent yn datblygu medrau cyflogadwyedd trosglwyddadwy (MA3.2).

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau addysg bellach

Yn achos dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dylai gwerthusiadau am gyflawniad ystyried gwybodaeth am eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Dylai arolygwyr ystyried cyfradd cynnydd y dysgwyr hyn o ran eu targedau, nodau dysgu cytûn a'u mannau cychwyn unigol. Lle bo'n berthnasol, dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn datblygu:

- eu medrau echddygol manwl a bras, eu symudedd a'u medrau byw yn annibynnol
- eu medrau cymdeithasol, yn cynnwys eu gallu i uniaethu â dysgwyr eraill, staff ac ymwelwyr â'r coleg
- y medrau sydd eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol (MA1.1).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau a gwybodaeth sy'n briodol i'w cymwysterau neu nodau dysgu cytûn. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn deall sut i asesu eu perfformiad eu hunain.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r uwch reolwyr a'r staff yn olrhain a chadw cofnodion ar gynnydd pob dysgwr ac yn adrodd ar y rhain yn glir i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy (MA3.2).

# Cam pedwar: sut mae'n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr parhad

### O 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae tiwtoriaid yn dadansoddi deilliannau eu hasesiadau o ddysgwyr i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio gwersi yn y dyfodol a'r camau nesaf o ran dysgu'r dysgwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r uwch reolwyr a'r staff yn olrhain a chadw cofnodion ar gynnydd pob dysgwr ac yn adrodd ar y rhain yn glir i fodloni anghenion dysgwyr, rhieni a gofalwyr ac awdurdodau lleoli. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy.


Dylai arolygwyr werthuso a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain, yn cynnwys defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (MA 3.2).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau a gwybodaeth sy'n briodol i'w cymwysterau neu nodau dysgu cytûn, gan gynnwys ystyried i ba raddau y maent yn datblygu medrau cyflogadwyedd trosglwyddadwy i fodloni anghenion yr economi leol neu ar gyfer astudio ymhellach ar lefel uwch. Dylai arolygwyr werthuso'r adborth geiriol ac ysgrifenedig gan aseswyr hefyd i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn deall sut i asesu eu perfformiad eu hunain (MA3.2).

### Dolenni defnyddiol:


- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol




Mae Estyn wedi datblygu:

- Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu



# Cam pedwar: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| I nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r deilliant neu'r deilliannau a fwriedir, mae'n bosibl y byddai'n fuddiol pennu targedau neu gerrig milltir interim neu dymor byr, a monitro effaith y DDdY ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys proses dracio barhaus neu unrhyw asesiad a gynhelir yn rheolaidd yn y lleoliad addysgol. Os oes angen targedau neu gerrig milltir o'r fath, dylid cofnodi'r rhain mewn atodiad i'r CDU. Gall unrhyw bryderon a godir o ganlyniad i'r gwaith monitro hwn arwain at adolygiad o'r CDU yn ei gyfanrwydd (gweler Pennod 25). | Cadw cofnodion sy'n gywir ac yn cael eu diweddaru am yr holl gymorth ac ymyriadau sydd ar waith. Adolygu cynlluniau cymorth a gofal yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol a bod hyn yn hyrwyddo cynnydd ar gyflawni deilliannau.<br><br>Gofalu bod modd rhannu targedau dysgwyr a data am eu cyflawniadau mewn fformat y gellir ei atodi i CDUau a gynhelir gan golegau addysg bellach ac awdurdodau lleol, yn ôl yr angen.<br><br>Adolygu sut mae cymorth dysgu ychwanegol yn rhoi'r gallu i wneud cynnydd. Gwirio bod adnoddau'n cael eu darparu'n effeithiol a nodi ble mae angen targedu cymorth, gan roi sylw i unrhyw faterion yn ymwneud ag anghydraddoldeb rhwng grwpiau o ddysgwyr. Darparu tystiolaeth o'r cymorth ychwanegol sydd ar waith, sut mae'n cwrdd â'r angen ac yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd. Gall astudiaethau achos fod yn ddefnyddiol i ddangos hyn. |

# Cam pedwar: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud parhad

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| Dylai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU ymgysylltu'n rheolaidd â'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc er mwyn trafod cynnydd, a dylai hyn yn ei dro gynorthwyo i lywio amseriad yr adolygiad a chyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc. Os yw'r CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, dylai'r awdurdod ystyried sut i gynnwys unrhyw sefydliad a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc wrth ystyried cynnydd ac ymgysylltu â'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc. Dylai'r broses o ymgysylltu â'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc gynnwys:<br>(a) darparu gwybodaeth glir a hygyrch iddynt ynglŷn â chynnydd y plentyn neu'r person ifanc a sut y gallai DDdY fod yn cyfrannu at hyn neu beidio;<br>(b) darparu cyfleoedd i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc drafod ei farn am y dulliau a'r strategaethau a ddefnyddir;<br>(c) darparu cyfleoedd i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc drafod pryd mae'n meddwl y gallai adolygiad o CDU fod yn fuddiol a pham (25.16). | Dangos sut mae rhaglenni dysgu unigol y dysgwyr wedi'u seilio ar lais y dysgwr a'u cytuno â'r dysgwr.<br>Cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth gan bob un o'r ffordd y mae rhaglenni dysgu unigol yn helpu i gyflawni deilliannau arfaethedig yn y CDU sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gadael i ddysgwyr gymryd camau tuag at eu dyheadau tymor hir.<br>Defnyddio cyflawniadau a ddangoswyd drwy asesu ffurfiannol i rymuso dysgwyr a meithrin y cryfderau a nodwyd.<br>Cynnwys dysgwyr mewn adolygiadau o gynnydd, yn cynnwys asesu bod targedau a nodau dysgu tymor byr, canolig a hwy yn aros yn briodol. Lle mae angen adolygu deilliannau arfaethedig y CDU, sicrhau bod y dysgwr yn cymryd rhan yn y broses.<br>Ystyried adborth gan ddysgwyr wrth gynllunio i wella ansawdd<br>Darparu proses asesu sy'n dangos yn glir lle nad yw anghenion newydd yn cael eu diwallu a dilyn proses briodol i ddiweddaru CDU y dysgwr (neu wneud cais am wneud hynny fel y bo'n briodol). Canfod lle mae modd cwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu drwy adolygu'r DDdY a lle mae angen gwneud atgyfeiriadau allanol. |
| Mae'n bwysig cofio bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac y gall eu hanghenion newid dros amser. Drwy gylch parhaus o gynllunio, gweithredu ac adolygu, gellir nodi a darparu cymorth neu arbenigedd gwahanol yn ôl yr angen. Dylid cynyddu, lleihau neu newid amrediad ac arddulliau'r cymorth dros amser, felly, yn ôl anghenion a chynnydd y plentyn neu'r person ifanc (25.4). | Adolygu sut mae cymorth dysgu ychwanegol yn rhoi'r gallu i wneud cynnydd. Gwirio bod adnoddau'n cael eu darparu'n effeithiol a nodi ble mae angen targedu cymorth, gan roi sylw i unrhyw faterion yn ymwneud ag anghydraddoldeb rhwng grwpiau o ddysgwyr. Darparu tystiolaeth o'r cymorth ychwanegol sydd ar waith, sut mae'n cwrdd â'r angen ac yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd. Gall astudiaethau achos fod yn ddefnyddiol i ddangos hyn.<br>Defnyddio data asesu ffurfiannol i gynllunio strategaethau cymorth gweithredol i leihau dibyniaeth a chynyddu ymreolaeth a sgiliau'r dysgwr. |

# Cam pedwar: cwestiynau y dylai colegau eu gofyn iddyn nhw eu hunain am Gynlluniau Datblygu Unigol

| Cwestiynau i'w gofyn | Os mai 'na' neu 'ddim yn siŵr' yw'r ateb |
|---|---|
| A oes cysylltiad rhwng y cynnydd a nodwyd yn ystod yr asesiad ffurfiannol a'r deilliannau arfaethedig yn y CDU? | Nodi sut mae cynnydd y dysgwr yn ei helpu i gyflawni ei ddeilliannau tymor hir ac unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud mewn deilliannau neu amcanion tymor byr. Os nad yw'r dysgwr ar y llwybr iawn i gyflawni deilliannau o fewn y cyfnod a bennwyd, penderfynu beth arall sydd angen ei wneud gan y coleg neu eraill i ailsefydlu'r cynnydd. Os oes angen diwygio deilliannau, cysylltu â'r bobl berthnasol mewn colegau addysg bellach a/neu yn yr awdurdod lleol i drafod hyn. |
| A yw staff yn hollol ymwybodol o farn y dysgwyr am eu cynnydd a beth allai fod yn atal neu'n hyrwyddo eu cynnydd? | Cynllunio adolygiadau blynyddol gyda'r dysgwr. Defnyddio offer meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu'r dysgwr i benderfynu beth mae am ei ddweud a sut mae am ei ddweud. Y dysgwr biau'r CDU ac mae ei lais yn ganolog. Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cyfathrebu'n ffurfiol, datblygwch ddulliau personol i ddysgwyr gymryd rhan yn ystyrlon a chynnwys staff sy'n adnabod y dysgwr yn dda ac yn gallu eirioli ar ei ran. |
| A yw'r awdurdod lleol wedi cael gwybodaeth a thystiolaeth gywir a digonol am y cynnydd tuag at gyflawni deilliannau tymor hir? | Paratoi adroddiadau ar gynnydd cyn cynnal adolygiad blynyddol o'r CDU.<br><br>Cynnwys trafodaeth am gynnydd y dysgwr ar sail amcanion tymor byrrach, wedi'u cysylltu â deilliannau tymor hir. Bydd angen i'r rheini sy'n gyfrifol am gynnal CDUau gael eu bodloni bod y dysgwr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ar sail y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adolygiad blynyddol. Wrth benderfynu peidio â chynnal CDU, bydd colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn edrych i weld a yw'r deilliannau arfaethedig wedi cael eu cyflawni. |

# Cam pedwar: ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

**Enghreifftiau mewn colegau...**

Mae un coleg arbenigol wedi creu cronfa o adnoddau cyfathrebu o'r enw pecyn ILP y gall staff ei defnyddio i helpu'r dysgwr i ddeall ei dargedau a'r cynnydd y mae'n ei wneud ac i geisio deall beth fyddai'n hoffi ei wneud nesaf.

Mae un coleg addysg bellach yn defnyddio dogfen targedau ac olrhain sy'n cynnwys proffil un dudalen y dysgwr.


Mae un coleg arbenigol wedi creu templed hunanasesu adolygiad dysgwr y gall staff ei ddefnyddio gyda'r dysgwr i hwyluso myfyrdod ar y pryd gan y dysgwr ar ei gynnydd ar gyflawni ei dargedau.

Mae un coleg arbenigol yn defnyddio'r templed adolygu hwn i helpu i baratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu ffurfiol.

## Dolenni defnyddiol:


Dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru


- Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion





The National Development Team for inclusion (NDTI) have developed:

- Model NDTI ar gyfer edrych ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio
- Templed NDTI ar gyfer ynys   beth sy'n bwysig
- Templed canlyniadau NDTI





# Cam pedwar: sicrhau ansawdd

### Enghreifftiau o weithgarwch sicrhau ansawdd

- Asesu ansawdd sampl o adroddiadau cynnydd gan wahanol aelodau staff sy'n gweithio ym mhob rhan o'r rhaglen. Gwirio bod staff yn dilyn canllawiau'r sefydliad ar adrodd am gynnydd. Gallai hyn gynnwys asesiadau wyneb yn wyneb yn y dosbarth ac adroddiadau cynnydd ysgrifenedig.
- Coladu data ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y cwricwlwm ar gyfer sampl o ddysgwyr unigol. Nodi unrhyw batrymau penodol lle nad yw'r cynnydd yn digwydd yn ôl y disgwyl, a hefyd lle mae'r cynnydd yn gyson uchel. Defnyddio'r wybodaeth hon i gynnal adolygiad ehangach o feysydd y cwricwlwm, i ddelio â materion yn ymwneud ag ansawdd ac i rannu arferion da.
- Cynnal cyfarfodydd llais y dysgwr neu amserlennu cyfarfodydd i gynrychiolwyr er mwyn gofyn a yw dysgwyr yn cael yr adborth sydd ei angen arnynt i ddeall eu cynnydd a beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf. Ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, cynnwys staff sy'n adnabod y dysgwr yn dda a rhieni a gofalwyr, os yw'n briodol.
- Archwilio sampl o gofnodion asesu i ganfod graddau'r defnydd o hunanasesu gan ddysgwyr ac asesu gan gymheiriaid ochr yn ochr ag asesu gan athrawon, a pha mor effeithiol y mae hynny'n cael ei wneud.
- Anfon holiaduron at rieni a gofalwyr, os yw'n briodol, ac at randdeiliaid allweddol i ganfod a oes ganddynt ddealltwriaeth clir o'r cynnydd a wneir ac a yw hyn yn cyd-fynd â'u disgwyliadau.
- Samplu gwaith y dysgwyr a chofnodion cysylltiedig o adborth/cynnydd i gael tystiolaeth bod dyfarniadau cyson yn cael eu gwneud am gynnydd a bod yr iaith y mae staff yn ei defnyddio yn gyson a dealladwy i'r dysgwr.
- Arsylwi ar ddulliau asesu yn ystod gwersi a ffyrdd o gofnodi cynnydd. Gwirio eu bod yn cynnwys defnydd o ddulliau creadigol addas i ddysgwyr fel fideos, ffotograffau ac arddangosfeydd o waith y dysgwyr sy'n dangos cynnydd ar gyflawni amcanion. Canfod yr arferion gorau a'u rhannu â thimau staff.
- Defnyddio tystiolaeth o adolygiad o asesiadau ffurfiannol i ganfod anghenion staff am ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn cynnwys lle mae angen mesurau rheoli perfformiad.

# Cam pedwar: offeryn hunanwerthuso

**Defnyddiwch yr offeryn hunanwerthuso i asesu beth rydych chi eisoes yn ei wneud yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach.**

■ Dim tystiolaeth yn galw am sylw ■ Angen datblygu ■ Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni

| Cam pedwar: adolygiad ffurfiannol o ddysgu | Dim tystiolaeth yn galw am sylw | Angen datblygu | Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni | Beth yw'r dystiolaeth? (nodwch gamau gwella yn y blychau ar y gwaelod) |
|---|---|---|---|---|
| A yw gweithgareddau cymedroli yn arwain at welliannau yn ansawdd asesu ffurfiannol sy'n helpu dysgwyr i wneud cynnydd? | | | | |
| A yw dysgwyr yn deall beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud nawr, sy'n wahanol i hynny ar ddechrau eu rhaglen ddysgu? A ydynt yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf? | | | | |
| A oes tystiolaeth bod cynnydd ar gyflawni deilliannau dysgu tymor byr a/neu dymor canolig yn cael ei gysylltu â chyflawni deilliannau tymor hir? | | | | |
| A yw'r asesiad o gynnydd yn cael ei ddefnyddio i helpu dysgwyr i ystyried eu cyrchfannau arfaethedig? A yw cyngor a gwybodaeth ar gael? | | | | |
| Ar gyfer dysgwyr mewn blwyddyn bontio, a yw asesu ffurfiannol yn cyfrannu i'w cynlluniau pontio? | | | | |
| A yw adolygiadau dysgwyr yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac a ydynt yn cynnwys pobl berthnasol sy'n adnabod y dysgwr yn dda? A yw camau gweithredu yn sgil adolygiadau yn cael eu cwblhau o fewn y terfyn amser? | | | | |
| A yw staff yn darparu adborth rheolaidd i ddysgwyr am eu cynnydd ar gyflawni amcanion a deilliannau tymor hir, mewn ffyrdd creadigol a hawdd eu deall? | | | | |
| A yw'r craffu ar waith y dysgwr yn cael ei ddefnyddio i wella cysondeb ac ansawdd yr asesu? | | | | |
| A oes gan staff yr arbenigedd a'r wybodaeth arbenigol sydd eu hangen i asesu cynnydd dysgwyr nad ydynt yn defnyddio cyfathrebu geiriol ffurfiol? A yw staff yn gwneud dyfarniadau cywir am gynnydd y dysgwyr hyn ac a yw adborth priodol yn cael ei ddarparu iddynt? | | | | |
| A yw cynlluniau cymorth a gofal y dysgwyr yn cael eu gwirio a'u diweddaru'n rheolaidd ar ôl ystyried asesiadau ffurfiannol? | | | | |
| A oes cynllun cynhwysfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i helpu staff i gynnal asesiadau o ansawdd da? | | | | |
| A yw staff yn gallu dilyn y broses asesu ffurfiannol heb greu beichiau diangen iddyn nhw eu hunain neu i ddysgwyr? | | | | |

# Cam pedwar: offeryn hunanwerthuso parhad

Camau gwella ansawdd

| Beth sydd angen ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Pryd gaiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cam pump

## Asesiad crynodol o gyflawniad

Mae asesu crynodol o gyflawniad yn galluogi dysgwyr a rhanddeiliaid i ddeall y ‘pellter a deithiwyd’ mewn addysg bellach ac yn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y camau nesaf. Mae hefyd yn caniatáu i golegau asesu a yw rhaglenni dysgu wedi bod yn effeithiol wrth gwrdd â disgwyliadau.

# Cam pump: Beth mae'n ei olygu?

## Mae cam pump yn ymwneud â chwblhau asesiad crynodol o gyflawniad sydd:

- yn helpu dysgwyr i symud ymlaen tuag at eu dewis gyrchfan
- yn darparu tystiolaeth o gyflawniad sy'n ystyrlon i ddysgwyr a rhanddeiliaid allweddol
- yn dangos cynnydd a chyflawniad deilliannau
- yn dathlu cyflawniad.

## Pan fydd asesu crynodol wedi'i reoli'n dda:

- mae dysgwyr yn gwybod beth maen nhw wedi'i gyflawni a sut maen nhw wedi gwneud cynnydd ar gyflawni eu dyheadau a deilliannau tymor hir
- bydd y wybodaeth a gasglwyd yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer pontio gan ei bod yn dangos y cynnydd a wnaed yn y rhaglen ddysgu gyfan o'r asesiad llinell sylfaen hyd y diwedd
- bydd cyflogwyr neu leoliadau cyrchfan eraill fel darparwyr gofal yn deall beth mae'r dysgwr yn gallu ei wneud a sut bydd hyn yn ei helpu i bontio
- mae'n cynnwys cofnod o unrhyw achredu allanol neu gymhwyster neu gymwysterau a enillwyd, ynghyd â chyflawniadau mewn agweddau ehangach ar y cwricwlwm fel cyfathrebu a datblygu personol, sgiliau byw'n annibynnol, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth
- dangosir cyflawniad mewn nifer o wahanol ffyrdd creadigol sy'n ystyrlon i'r dysgwr, caiff cyflawniadau eu dathlu a'u rhannu'n eang ar draws y sefydliad a hefyd â phartneriaid allanol
- rhoddir sylw i adborth wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr y dyfodol
- gellir gwerthuso effaith y rhaglen ddysgu ar gyfer unigolion a grwpiau o ddysgwyr
- bydd dysgwyr yn cael cynllun ar gyfer pontio i'w dewis gyrchfan a fydd yn dechrau cyn eu blwyddyn olaf yn y rhaglen ddysgu
- mae colegau'n defnyddio data am gyrchfannau wrth hunanwerthuso ac mewn cynlluniau gwella ansawdd.

# Cam pump: sut mae’n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr

Mae asesu pa mor effeithiol yw darparwyr wrth ddeall eu cryfderau a meysydd i’w datblygu yn elfen ganolog yn null arolygu Estyn. Dylai’r coleg gynnwys camau yn ei brosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio i wella ansawdd i ganfod a yw dysgwyr yn cyflawni amcanion dysgu mewn rhaglenni dysgu sydd heb eu hachredu, a pha bryd, ac i ganfod unrhyw ffactorau sydd wedi hwyluso neu rwystro cyflawniad. Bydd hefyd yn sicrhau bod modd cynnal trefniadau ystyrlon a phriodol ar gyfer pontio ar ôl gadael coleg lle bydd dysgwyr yn gallu parhau i ddatblygu’r sgiliau y maent wedi’u dysgu yn y coleg.

## O ‘Beth rydym yn ei arolygu’ ar gyfer addysg bellach a ‘Beth rydym yn ei arolygu’ ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal darpariaeth ansawdd uchel neu’n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth (MA5.1).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn gyfarwydd â chryfderau’r coleg a’i feysydd i’w datblygu, a’r graddau y maent wedi cymryd rhan yn y gwaith i osod blaenoriaethau strategol y coleg. Dylent ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae’r corff llywodraethol yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif (MA5.1).



# Cam pump: sut mae’n cydweddu ag arweiniad Estyn i arolygwyr parhad

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau’r coleg. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau’r ddarpariaeth, gan gynnwys addysgu ac asesu (MA5.2).

Dylai arolygwyr ystyried effaith prosesau cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae’r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanasesiad y coleg (MA 5.2).

Dylai arolygwyr ymchwilio i hanes y coleg o wneud gwelliannau a’r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles dysgwyr, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu a’r hyfforddi (MA5.2).


## O ‘Beth rydym yn ei arolygu’ ar gyfer colegau arbenigol

Dylai arolygwyr ystyried a yw dysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o ystyried eu mannau cychwyn, a’u hoedran a’u gallu (MA1.1).

**Dolenni defnyddiol:**

- Beth rydym yn ei arolygu: colegau addysg bellach
- Beth rydym yn ei arolygu: colegau annibynnol arbenigol



# Cam pump: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| Nodir mai un o gyfrifoldebau allweddol y CADY yw cefnogi dysgwyr â CDU wrth iddynt bontio o un lleoliad addysg i un arall neu i fyd oedolion, astudiaethau pellach neu fyd gwaith (8.21).<br><br>Disgwylir y byddai'r gwaith cynllunio ar gyfer proses bontio hysbys yn digwydd yr un pryd ag adolygu CDU fel arfer. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod cynlluniau pontio yn dod yn broses reolaidd y mae plant a phobl ifanc yn dod yn gyfarwydd â hi ac yn teimlo'n gyfforddus yn trafod sut y gallai pontio effeithio arnynt (27.20). | Mae'n bwysig bod CADYau a staff perthnasol mewn colegau yn cydgysylltu â rhanddeiliaid i gynllunio'r trefniadau priodol ar gyfer pontio ar ôl gadael coleg i leoliadau a/neu wasanaethau a fydd yn helpu i gynnal a thyfu sgiliau dysgwyr.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i sicrhau pontio sydd wedi'i gynllunio i wasanaethau oedolion, ar adeg briodol. Os yw anghenion iechyd a gofal cymdeithasol wedi newid dros gyfnod y rhaglen ddysgu ac nad yw hyn wedi'i ystyried wrth adolygu'r CDU erbyn diwedd y rhaglen ddysgu, dylai'r asesiad crynodol ddangos unrhyw newidiadau mewn anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi effeithio ar gynnydd a chyflawniad. |
| Mae cynlluniau pontio fel arfer yn fwyaf effeithiol pan fabwysiedir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganiatáu i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'i broses bontio nesaf. Trwy drafod y newidiadau tebygol i addysg neu hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc, gellir helpu i baratoi'r dysgwr ar gyfer y pontio a thynnu sylw at ba gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen. Bydd rhai cyfarfodydd sy'n trafod cynlluniau pontio yn elwa ar gynnwys partneriaid eraill a all helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall sut bydd y broses bontio'n gweithio'n ymarferol a pha gymorth ychwanegol sydd ar gael iddo. Gellir cofnodi unrhyw gymorth ychwanegol a nodwyd ar gyfer pontio yn CDU y plentyn neu'r person ifanc fel bod modd cymryd camau ar yr adeg berthnasol (27.6).<br><br>Mae cynllunio ar gyfer pontio yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am y lleoliad newydd (27.26). | Defnyddio asesiadau crynodol i ddangos yn glir y cynnydd yn sgiliau a gwybodaeth y dysgwr ac, os ceir caniatâd gan y dysgwr, rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid.<br><br>Sicrhau bod prosesau ar waith i alluogi'r dysgwr i gyfleu ei ddyheadau a'i anghenion ar gyfer ei fywyd fel oedolyn ar ôl gadael coleg yn ogystal ag unrhyw bryderon sydd ganddo.<br><br>Trefnu adolygiadau o gynnydd yn gynharach yn y flwyddyn ar gyfer dysgwyr a fydd yn gadael y flwyddyn honno. Ystyried y dystiolaeth o adroddiadau cynnydd wrth gynllunio a meddwl am y camau nesaf i gyrraedd y gyrchfan a ddewiswyd. Gwahodd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol a gweithwyr amlddisgyblaeth eraill a fydd â rhan ym mywyd y dysgwr. Paratoi'r dysgwr ar gyfer yr adolygiad fel y bydd yn gallu rhoi gwybod am ei gynnydd a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am bontio. Gall hyn alw am drefnu ar gyfer gwasanaethau eirioli drwy'r awdurdod lleol. |

# Cam pump: y Cod ADY a beth all colegau ei wneud parhad

| Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud | Beth all colegau ei wneud |
|---|---|
| Byddai cynllunio ychwanegol yn fuddiol ar gyfer pontio i mewn ac allan o gyfnodau addysg penodol hefyd. Gall hyn gynnwys plant a phobl ifanc sy'n paratoi i bontio rhwng cyfnodau allweddol, neu o addysg a hyfforddiant i fyw'n annibynnol (27.10).<br><br>Pan fydd person ifanc ag ADY yn gadael addysg neu hyfforddiant ac yn paratoi ar gyfer bod yn oedolyn, gall cynlluniau pontio helpu gyda'r heriau emosiynol ac ymarferol sydd o'i flaen. Trafodaeth bwysig yn rhan o'i gynllun pontio terfynol yw'r hyn fydd yn digwydd pan fydd ei CDU yn dod i ben, a pha gymorth sydd ar gael iddo yng ngham nesaf ei fywyd. Gall cyngor am y cymorth a ddarperir gan asiantaethau eraill helpu pobl ifanc wrth iddynt adael addysg. Gyda'r cymorth cywir, gall y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY wireddu eu potensial a byw bywydau annibynnol a bodlon (27.48). | Cydweithio ag awdurdodau lleol a chynghorwyr gyrfaoedd i sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn deall yr holl opsiynau sydd ar gael i'r dysgwr ar ôl gadael coleg, yn cynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau a hawliau cyflogaeth.<br><br>Bod â diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pobl ifanc sydd ag ADY. Defnyddio asesu crynodol i ddathlu a hyrwyddo cyflawniadau dysgwyr y presennol a'r gorffennol. Cynnwys gwahanol grwpiau dysgwyr i ddangos amrywiaeth y dysgwyr ADY ar draws y sefydliad.<br><br>Sicrhau bod dysgwyr yn gadael â chofnod o'u cyflawniadau sy'n ystyrlon iddynt ac y gellir ei rannu ag eraill, yn cynnwys cyflogwyr posibl. |

# Cam pump: cwestiynau y dylai colegau eu gofyn iddyn nhw eu hunain am Gynlluniau Datblygu Unigol

| Cwestiynau i'w gofyn | Os mai 'na' neu 'ddim yn siŵr' yw'r ateb |
|---|---|
| Ydych chi'n gyfrifol am benderfynu neu a oes gennych ran mewn penderfynu a fydd CDU yn dod i ben neu beidio ar ddiwedd rhaglen? | Defnyddiwch yr asesiadau ffurfiannol a chrynodol i ddarparu tystiolaeth am gynnydd ar gyflawni'r deilliannau. Dim ond tra bo angen darpariaeth addysgol i helpu'r person ifanc i gyflawni deilliannau'r CDU y bydd y CDU yn parhau. Bydd colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau i ddod â CDU i ben ar sail tystiolaeth o gynnydd ar gyflawni deilliannau yn y cynllun neu o gyflawni'r deilliannau hynny. Fel arfer, yr asesiad crynodol fydd y brif dystiolaeth a fydd yn sail i benderfyniadau'r awdurdod lleol. |
| Ydych chi'n gwybod a fydd CDU y dysgwr yn parhau wedi iddo symud i leoliad newydd? | Adolygu dewis gyrchfan y dysgwr. Os yw'n symud ymlaen i leoliad addysgol arall a bod arno angen parhau â'i CDU, mae terfynau amser penodol yn y Cod ADY sy'n golygu y gellid bod angen cynnal adolygiadau blynyddol o'r CDU yn gynharach nag arfer. Gofalwch fod y wybodaeth wedi'i diweddaru a'i bod yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn y coleg. |
| A yw barn y dysgwr am bontio i leoliad newydd neu ddychwelyd i raglen ddysgu wedi cael ei hystyried neu a yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r farn hon? | Darparu tystiolaeth i'r awdurdod lleol o'r ffordd y mae dysgwyr wedi mynegi eu barn am eu cyflawniadau a beth maent am ei wneud nesaf. Defnyddio offer cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion i ddangos hyn. Dylid cynnwys staff sy'n adnabod y dysgwyr yn dda a rhieni a gofalwyr, os yw'n briodol. |
| A oes angen i'r dysgwr gael eiriolwr anffurfiol neu wasanaethau eiriolaeth trydydd parti i ddod i adolygiad o'i CDU neu i gynllunio ar gyfer pontio? | Gofalu bod staff yn meddu ar sgiliau addas i ddynodi dysgwyr a all fod ag angen eiriolwr a bod awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu'n amserol am unrhyw angen am wasanaethau eiriolaeth. O dan y Cod ADY, rhaid i awdurdodau lleol hysbysebu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ac am ddim i randdeiliaid. |

# Cam pump: ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

## Enghreifftiau mewn colegau...

Gan gofio ei bod yn digwydd yn aml na fydd y bobl sy'n penderfynu am y gwasanaethau y bydd person ifanc yn eu cael ar ôl gadael coleg yn rhai sy'n adnabod y dysgwr yn dda, mae un coleg arbenigol wedi datblygu Cynllun Hunaneirioli sy'n cynnwys manylion yr holl gyflawniadau gan y dysgwr yn y coleg a dewisiadau'r dysgwr o ran ei fywyd fel oedolyn ar ôl gadael coleg. Mae'r cynllun yn dangos manylion unrhyw waith gwirfoddol y mae'r dysgwr wedi'i wneud, ei ddiddordebau a hobïau a beth sy'n bwysig i'r dysgwr fel y sgiliau y mae am barhau i'w datblygu, y math o le y byddai'n hoffi byw ynddo, y gwaith am dâl neu heb dâl y byddai'n hoffi ei gael a gweithgareddau eraill y byddai'n hoffi eu gwneud (e.e. ymarfer yn y gampfa am awr dair gwaith yr wythnos).

Mae un coleg arbenigol yn defnyddio Dogfen Barn y Dysgwr y mae'n ofynnol ei llenwi cyn cyfarfodydd adolygu ffurfiol. Mae'n dangos ei farn a'i ddewisiadau. Mae'n nodi pwy y byddai am eu gweld yn dod i'w gyfarfodydd adolygu, beth sy'n mynd yn dda, meysydd lle mae lle i wella a'i ddyheadau at y dyfodol.


Mae un coleg addysg bellach yn defnyddio Trywydd RARPA i helpu dysgwyr i ddeall beth ddylen nhw ei ddisgwyl ar bob cam.


Mae un coleg arbenigol yn defnyddio dogfen grynodeb i helpu staff i ddeall sut mae'r broses RARPA yn cael ei defnyddio yn y coleg.


**Dolenni defnyddiol:**

Mae'r National Development Team for inclusion (NDTI) wedi datblygu:

- Offeryn diwrnod da a diwrnod gwael NDTI
- Offeryn NDTI i gynyddu Presenoldeb a chyfraniadau
- Offeryn Gwe cynhwysiant NDTI





# Cam pump: sicrhau ansawdd

## Enghreifftiau o weithgarwch sicrhau ansawdd

- Adolygu data am gyflawniadau i ddangos bod barn wedi'i harfer ar lefel gyson ym mhob agwedd ar asesu crynodol. Gallai hyn gynnwys craffu ar dystiolaeth ar gyfer asesu, adroddiadau cynnydd terfynol, gwaith y dysgwr ac adolygu CDU y dysgwr neu ddogfen gyfatebol. Nodwch a oes unrhyw batrymau o anghydraddoldeb rhwng grwpiau o ddysgwyr e.e., ar sail rhywedd, ethnigrwydd, anabledd neu anghenion addysgol arbennig.
- Gwirio bod y cyflawniadau crynodol a gofnodwyd:
  - yn dangos cynnydd boddhaol oddi ar y mannau cychwyn
  - yn adeiladu ar sail y cynnydd a wnaed drwy gwrdd ag amcanion dysgu
  - wedi rhoi'r gallu i wneud cynnydd ar gyflawni dyheadau tymor hir.
- Cynnal arolwg o ddysgwyr i gael gwybod i ba raddau y mae dysgwyr yn credu bod y rhaglen ddysgu gyfan wedi diwallu eu hanghenion. Cynnal cyfarfodydd llais y dysgwr neu gyfarfodydd o gynrychiolwyr y dysgwyr i gael adborth am yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Gofynnwch i'r dysgwyr a yw'r rhaglen ddysgu wedi cwrdd â'u disgwyliadau ac a fyddent yn newid rhywbeth neu'n gwneud rhywbeth yn wahanol, yn cynnwys y math o gymorth neu ymyriadau y maent wedi'u cael.
- Casglu adborth oddi wrth randdeiliaid allweddol fel rhieni, gofalwyr a gweithwyr amlddisgyblaeth proffesiynol ynghylch y graddau y mae'r rhaglen ddysgu wedi galluogi'r dysgwr i gyflawni.
- Galw i mewn i ystafelloedd dosbarth a mannau cymunol i arsylwi ar y ffordd y mae cyflawniadau dysgwyr yn cael eu rhannu a'u dathlu. Asesu'r wefan a ffynonellau gwybodaeth eraill am dystiolaeth bod cyflawniadau dysgwyr yn cael eu gweld yn bwysig iawn.
- Gofyn am adborth gan leoliadau newydd y dysgwyr ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y data crynodol a rannwyd â nhw am gyflawniadau, wrth gynllunio cymorth, gweithgareddau a chyfleoedd.



# Cam pump: offeryn hunanwerthuso

**Defnyddiwch yr offeryn hunanwerthuso i asesu beth rydych chi eisoes yn ei wneud yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach.**

■ Dim tystiolaeth yn galw am sylw ■ Angen datblygu ■ Tystiolaeth o hyn yn cyfrannu at gynllunio a chyflawni

| Cam un: asesiad crynodol o gyflawniad | | | | Beth yw'r dystiolaeth? nodwch gamau gwella yn y blychau ar y gwaelod) |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r holl ddysgwyr yn cael asesiad terfynol o'u cyflawniadau yn y rhaglen ddysgu sy'n dangos y cynnydd a wnaethant o'u mannau cychwyn? | | | | |
| A yw'r adroddiadau cynnydd terfynol yn cael eu gwirio am gysondeb o ran ymagwedd, iaith, cynnwys ac asesu cyflawniadau ar draws y rhaglen gyfan? | | | | |
| A yw dysgwyr wedi cyflawni eu hamcanion dysgu a deilliannau tymor hwy yn ôl y disgwyl? | | | | |
| A yw dysgwyr yn gallu mynegi, mewn ffyrdd priodol, beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud nawr nad oeddent yn ei wybod neu'n gallu ei wneud ar ddechrau eu rhaglen ddysgu? | | | | |
| A yw cyflawniadau ar ddeilliannau'r CDU ac yng nghwricwlwm y dysgwr yn cael eu cofnodi'n benodol? | | | | |
| A oes tystiolaeth bod y cymorth a'r ymyriadau a ddarparwyd wedi galluogi dysgwyr i gyflawni? | | | | |
| A yw'r asesiadau terfynol wedi'u cymedroli ac a ystyrir y wybodaeth o hynny wrth gynllunio'r cwricwlwm? | | | | |
| A oes tystiolaeth o ffyrdd creadigol, ystyrlon i ddangos cyflawniad, fel fideos, arddangosfeydd, adborth gan ddysgwyr, digwyddiadau dathlu a gwobrwyo, sy'n cynnwys y dysgwyr ac yn mynegi 'llais y dysgwr'? | | | | |
| A yw'r cyflawniadau'n cael eu rhannu â'r gymuned ehangach, yn cynnwys rhieni a gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill? | | | | |
| A yw dysgwyr wedi parhau â'r pontio a gynlluniwyd i'r lleoliad nesaf neu i gyrchfan? A yw gwybodaeth o'r asesiad crynodol wedi cael ei rhannu, os cafwyd cydsyniad gan y dysgwr? | | | | |
| A yw data am gyrchfannau yn cael eu dadansoddi i'w hystyried wrth gynllunio? | | | | |
| A yw'r arferion gorau o ran asesu crynodol yn cael eu rhannu a chamau ar gyfer gwella yn cael eu nodi lle bo angen? | | | | |
| A yw staff yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer asesu crynodol mewn ffordd effeithiol a heb ysgwyddo gormod o waith? | | | | |
| A oes targedau ar gyfer staff i wella asesu crynodol, os oes angen, yn eu hadolygiadau o berfformiad ac yn y broses arfarnu? | | | | |

# Cam pump: offeryn hunanwerthuso parhad

Camau gwella ansawdd

| Beth sydd angen ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Pryd gaiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Helpu i sicrhau ansawdd RARPA

## Adolygu mewnol

Gellir cynnal adolygiadau mewnol drwy gydol y flwyddyn, ar bwyntiau allweddol yn ystod pob un o'r pum cam neu'n flynyddol.

Bydd adolygu mewnol yn helpu i ganfod yr arferion gorau a lle mae angen cymryd camau i wella ansawdd. Dylid ei gyflawni yn rhan o gylch sicrhau ansawdd arferol y coleg.

## Adolygu allanol

Gall colegau gael budd o gomisiynu adolygiad allanol o raglenni dysgu RARPA.

Mae gweithwyr proffesiynol allanol sy'n arbenigo mewn cyflawni a sicrhau ansawdd y broses RARPA yn gallu darparu asesiad diduedd o'r ffordd y mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio i hunanasesu a gwella ansawdd. Mae hyn yn gallu ennyn mwy o hyder ymysg rhanddeiliaid fod craffu allanol yn digwydd.

## Adolygu gan gymheiriaid

Yn ogystal â chynnal adolygiadau mewnol, gall colegau weithio mewn partneriaeth i adolygu prosesau ei gilydd, nodi a rhannu arferion da a gwella ansawdd cyffredinol prosesau RARPA yng Nghymru. Gall adolygu gan gymheiriaid fod yr un mor effeithiol rhwng colegau o'r un math neu o fath gwahanol a lle mae cohortau o ddysgwyr sy'n debyg neu'n wahanol i'w gilydd. Gellir rhoi sylw i un cam RARPA ar y tro neu i'r systemau RARPA i gyd.

Mae Colegau Cymru wedi datblygu adnoddau i helpu colegau addysg bellach i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid.

**Dolenni defnyddiol:**

Mae'r fframwaith hunanasesu hwn a ddatblygwyd gan Colegau Cymru yn darparu enghreifftiau o'r mesurau y gellir eu cymryd i wella ansawdd prosesau RARPA.

Mae Colegau Cymru wedi datblygu Canllawiau cyfnewid cymheiriaid RARPA ynghyd â Ffurflen Samplu a Ffurflen Adrodd RARPA.

Mae'r diagram hwn yn dangos sut mae prosesau RARPA yn cydweddu â chylch sicrhau ansawdd blynyddol y coleg.

Mae Transform, gwasanaeth Natspec ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, yn darparu gwahanol fathau o hyfforddiant RARPA a gall colegau ofyn am adolygiad ansawdd allanol o brosesau RARPA.

Natspec
Llais addysg bellach arbenigol

Diolch i Lywodraeth Cymru, Estyn, Arweinwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol a grŵp prosiect RARPA Colegau Cymru ac aelodau o Fforwm Natspec Cymru am eu cefnogaeth wrth ddatblygu'r canllawiau hyn. Diolch yn arbennig i Goleg Pen-y-bont, Coleg Elidyr, Coleg Gwent, Coleg Sir Gâr, Derwen College, Grŵp Llandrillo Menai a National Star College am eu haelioni wrth roi o'u hamser i rannu enghreifftiau o'u prosesau RARPA.

Sefydlwyd Natspec i wella addysg bellach i bobl ifanc sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu. Rydym am sicrhau bod y canllawiau hyn mor amserol a buddiol â phosibl i randdeiliaid. Os hoffech roi adborth neu gynnig enghraifft o'r ffordd rydych chi'n defnyddio prosesau RARPA, anfonwch e-bost i info@natspec.org.uk

Mae Natspec yn sefydliad aelodaeth ac yn llais i addysg bellach arbenigol. Mae ein gwasanaeth **Transform** sy'n darparu cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus, a **TechAbility**, ein gwasanaeth cymorth Technoleg Gynorthwyol, yn ceisio gwella canlyniadau i ddysgwyr sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu mewn addysg bellach prif ffrwd ac arbenigol. I gael rhagor o wybodaeth am ymaelodi, ewch i https://natspec.org.uk/membership/join-us/

www.natspec.org.uk
info@natspec.org.uk
@Natspec
/NatspecVoiceOfSpecialistFE